Fframwaith Dysgu fel Teulu

Mae'r Fframwaith Dysgu fel Teulu yn fodel hyblyg a gynlluniwyd i helpu darparwyr addysg oedolion ac ysgolion i gynnwys dysgu fel teulu yn eu rhaglenni. Ei nod yw hybu dysgu fel teulu fel llwybr ar gyfer dysgu gydol oes, datblygu sgiliau, cyflogadwyedd a chyfleoedd swydd ar gyfer oedolion a phlant.

Llywodraeth Cymru
Welsh Government

D&G SEFYDLIAD DYSGU A GWAITH
LEARNING AND WORK INSTITUTE L&W

Tabl Cynnwys

3 Cyflwyniad

6 Beth yw dysgu fel teulu?

9 Dull partneriaeth

11 Dynodi angen

13 Datblygu'r cwricwlwm

15 Ymgysylltu â theuluoedd

17 Cefnogi dilyniant

20 Gwerthuso effaith

22 Astudiaethau achos

51 Cyfeiriadau

53 Atodiadau

"Mae gwreiddiau Dysgu fel Teulu yn nhraddodiadau addysg gymunedol i oedolion a datblygu cymunedol."

Cyflwyniad

Pam fod dysgu fel teulu yn bwysig?

Mae dysgu fel teulu yn newid bywydau. Pan fo cyfleoedd dysgu ar gyfer oedolion wedi eu cysylltu gydag addysg plant yn y teulu, dengys tystiolaeth fod hynny yn meithrin cymhelliant, hyder ac ymroddiad i ddysgu. Mae'n neilltuol o effeithlon fel dull i gyrraedd ac ymgysylltu ag oedolion a gafodd y budd lleiaf o'u haddysg ddechreuol, sydd â llai o gymwysterau a heb fawr o brofiad o waith cyflog. Fel dull ymgysylltu, mae dysgu fel teulu yn datblygu sgiliau a llwybrau i fwy o ddysgu a chyflogaeth.

Mae cydnabyddiaeth gynyddol fod gan ddysgu fel teulu rôl bwysig wrth gyflawni ystod eang o ddeilliannau cadarnhaol, o welliannau addysgol a deilliannau iechyd a llesiant gwell, i gefnogi datblygu sgiliau a phobl yn ôl i waith.

Mae dysgu fel teulu yn rhoi carreg gamu yn ôl i ddysgu ffurfiol a hyfforddiant, cyflogadwyedd a chynnydd mewn cyflogaeth. Yn ei dro, mae hyn yn gwella deilliannau addysgol, cymdeithasol ac economaidd ar gyfer teuluoedd yn eu cyfanrwydd.

Mae gan ddysgu fel teulu draddodiad cyfoethog yng Nghymru. Mae diddordeb o'r newydd ymysg gwneuthurwyr polisi, ysgolion a'r sector addysg oedolion mewn datblygu ac ehangu darpariaeth i ymateb i'r cyfleoedd a'r heriau a wynebwn heddiw.

"Teuluoedd yw conglfaen ein cymdeithas. Mae'r teulu yn rhoi rhwyd ddiogelwch a hefyd sbardun ar gyfer gwneud lle yn y byd. Rhieni yw'r athrawon, mentoriaid a thywyswyr pennaf ar gyfer plant a phobl ifanc. Dengys ymchwil fod gan blant lawer gwell cyfle o lwyddo mewn bywyd os yw eu rhieni yn ymwneud â dysgu. Mae dysgu fel teulu yn rhoi cam diogel a difyr heb fawr o bwysau yn ôl i addysg oedolion ffurfiol – un sy'n apelio at ddymuniad cryf rhieni i gefnogi eu plant. Mae'n cryfhau sgiliau cyfathrebu a mathemateg, yn meithrin hyder i ddysgu a gall fod yn garreg gamu i fwy o addysg a hyfforddiant."

Family Learning Works,
Ymchwiliad i Ddysgu fel Teulu

Heriau

- **Mae cyfraddau anweithgaredd economaidd yng** Nghymru yn uchel, 20.3% (ac eithrio myfyrwyr) ar gyfer y flwyddyn a ddaeth i ben ym mis Mawrth 2024.

- **Amcangyfrifir bod y gyfran o oedolion oedran gwaith heb unrhyw gymwysterau** yn 7.9% yn 2023 o gymharu â tharged Llywodraeth Cymru o 5% neu lai ym mhob awdurdod lleol erbyn 2050.

- Mae'r **gyfran o oedolion oedran gwaith gyda chymhwyster lefel 3 neu uwch** yn isel, amcangyfrifir ar 67.4% yn 2023 o gymharu â tharged Llywodraeth Cymru o 75% erbyn 2050.

- Mae'r **gyfran o oedolion oedran gwaith gyda chymwysterau lefel 4 ac uwch** yn is yng Nghymru nag yn y Deyrnas Unedig yn ei chyfanrwydd.

- Mae'r **gyfran o bobl ifanc nad ydynt mewn cyflogaeth, addysg a hyfforddiant** yn parhau'n uchel ar 14.2% ac yn uwch na'r targed o 10% a osodwyd gan Lywodraeth Cymru ar gyfer 2050.

- Mae'r **cyfraddau cyfranogiad mewn addysg oedolion** (a gaiff ei fesur gan y rhai a gymerodd ran mewn dysgu dros y tair blynedd ddiwethaf) yng Nghymru yr isaf o blith holl genhedloedd y Deyrnas Unedig ac yn yr un modd ni sydd â'r cyfranogiad isaf mewn addysg uwch o blith holl genhedloedd y DU.

- Mae gan **tua 12% o oedolion oedran gwaith yng Nghymru** sgiliau llythrennedd isel, ac mae gan 50% sgiliau rhifedd isel.

- **Gyda thechnoleg yn gynyddol bwysig mewn bywyd a gwaith bob dydd,** mae sgiliau digidol yn hanfodol. Fodd bynnag, mae llawer o oedolion yn cael anhawster gyda'r sgiliau hyn ac nid yw tua 10% o oedolion Cymru ar-lein.

- **Lle mae gan rieni lefelau isel o sgiliau sylfaenol,** gall eu plant hefyd gael anawsterau; lle mae rhieni yn byw mewn tlodi, gyda iechyd gwael, mewn tai gwael, mae'n hefyd yn glir y gallant ei chael yn anodd cefnogi addysg eu plant.

“Rwy’n teimlo’n falch o’r hyn a gyflawnais. Mae wedi cynyddu fy hunanhyder a ffocws – ac yn bwysicaf oll, mae wedi rhoi ffrindiau newydd i mi. Am y tro cyntaf mewn blynyddoedd, rwy’n cymdeithasu ac yn mwynhau fy mywyd. Mae gen i basport; rwy’n helpu i redeg clwb llyfrau ac rwy’n rhan o Gymdeithas Rhieni ac Athrawon newydd yr ysgol. Mae’n teimlo fel fod fy mywyd wedi cychwyn.”

Lucy Willis

Ewch i stori Lucy

Beth yw dysgu fel teulu?

Yn draddodiadol bu dysgu fel teulu yn ddull addysgol lle mae oedolion a phlant yn dysgu gyda’i gilydd. Mae’n digwydd mewn lleoliadau amrywiol yn cynnwys safleoedd cymunedol, ysgolion a’r cartref.

Gellir ei ddiffinio fel:
‘Unrhyw weithgaredd dysgu sy’n effeithio ar blant a hefyd oedolion yn y teulu, lle bwriedir deilliannau dysgu ar gyfer y ddau, ac sy’n cyfrannu at ddiwylliant o ddysgu yn y teulu.’

Pam y cafodd y Fframwaith yma ei ddatblygu?
Mae Llywodraeth Cymru yn cydnabod potensial dysgu fel teulu i helpu wrth fynd i’r afael ag anfantais addysgol ac anghydraddoldeb parhaus mewn cyflogaeth a phrofiadau a deilliannau bywyd yn ehangach. Mae’n ymroddedig i gefnogi mabwysiadu’r dull addysgol neilltuol a thrawsnewidiol hwn yn fwy eang.

Mae’r fframwaith yn rhoi model hyblyg ar gyfer darparwyr addysg oedolion ac ysgolion nad ydynt yn ymwneud ar hyn o bryd â chyflenwi dysgu fel teulu a hoffai ei sefydlu yn eu hymarfer. Mae’n anelu i gryfhau rôl dysgu fel teulu fel llwybr i ddysgu gydol oes, datblygu sgiliau, cyflogadwyedd a chyfleoedd cyflogaeth ar gyfer oedolion a phlant.

Yn benodol, diben y fframwaith yw helpu defnyddio grym dysgu fel teulu i herio anghydraddoldeb cymdeithasol ac economaidd drwy ymgysylltu a chefnogi oedolion a fu – oherwydd hil, dosbarth cymdeithasol, rhywedd neu ffactorau eraill -dan anfantais yn eu profiadau o addysg a chyflogaeth.

Dolenni ac adnoddau:

Fit for purpose: the wider outcomes of family learning

Family Learning Works The Inquiry into Family Learning in England and Wales

Fel arfer mae rhaglenni dysgu fel teulu yn cynnwys:

- Ffocws ar ddysgu fydd yn helpu oedolion yn y teulu i ddatblygu'r sgiliau a'r wybodaeth i gefnogi dysgu a datblygiad eu plant yn fwy effeithlon, tebyg i gyfathrebu, llythrennedd, rhifedd, cynyddu hyder a bwyta'n iach.

- Llwybrau mynediad wedi eu sefydlu ar gyfer ystod o sgiliau oedolion yn cynnwys ESOL (Saesneg ar gyfer Siaradwyr Ieithoedd Eraill), Cymraeg, Saesneg, mathemateg, sgiliau digidol a chyflogadwyedd a llwybrau dilyniant i gymwysterau ffurfiol i oedolion, TGAU a llwybrau i addysg bellach ac addysg uwch, yn cynnwys cyrsiau mynediad, rhaglenni sylfaen a gradd.

Mae dysgu fel teulu yn esblygu'n barhaus mewn ymateb i'r newid yn anghenion dysgwyr a'r cyd-destun y caiff ei gyflwyno ynddo. Ar hyn o bryd, mae dysgu fel teulu sy'n digwydd mewn ysgolion yng Nghymru yn bennaf o dri math neilltuol sy'n adlewyrchu anghenion oedolion a phlant mewn gwahanol fathau o ysgolion.

Ysgolion cynradd

- Cynhelir gweithgareddau dysgu ar gyfer oedolion yn unig a hefyd gymysg ar gyfer oedolion a phlant.

- Fel arfer caiff ei strwythuro fel bod sesiynau i oedolion yn unig yn canolbwyntio ar ddysgu sgiliau a gaiff wedyn eu rhoi ar waith i gefnogi dysgu plant mewn sesiynau cymysg.

- Caiff anghenion dysgu personol hefyd eu dynodi a chânt eu cefnogi gyda chyfleoedd priodol ar gyfer dysgu a dilyniant.

Ysgolion uwchradd

- Mae'r sesiynau ar gyfer oedolion yn unig fel arfer.

- Mae'r ffocws ar ddeall beth a sut mae plant yn dysgu fel y gall oedolion eu cefnogi gyda gwaith cartref a dilyniant.

- Caiff anghenion dysgu personol oedolion hefyd eu dynodi a chânt eu cefnogi gyda chyfleoedd priodol ar gyfer dysgu a dilyniant.

Ysgolion arbennig

- Mae'r sesiynau ar gyfer oedolion yn unig fel arfer.

- Mae'r ffocws ar ddeall a datblygu sgiliau a strategaethau ar gyfer rheoli cyflwr plentyn.

- Caiff anghenion dysgu personol oedolion hefyd eu dynodi a chânt eu cefnogi gyda chyfleoedd priodol ar gyfer dysgu a dilyniant.

Yn gyffredinol caiff oedolion eu cymell i ymuno â chwrs dysgu fel teulu gan ddymuniad i gefnogi dysgu eu plant. Yn aml, mae'r cymhelliant hwn ar ei uchaf ar adegau pontio, fel pan fo plentyn yn cychwyn yn yr ysgol, yn symud o ysgol gynradd i ysgol uwchradd neu'n cael diagnosis o anghenion addysgol arbennig. Unwaith yr ymgysylltwyd ag oedolion, cânt eu hannog a'u cefnogi i drin eu hanghenion dysgu a'u diddordebau eu hunain hefyd, er efallai na chaiff y bwriad hyn ei ddatgan yn agored ar y dechrau.

Er fod dysgu fel teulu yn hanesyddol wedi tueddu i dybio fod oedolion sy'n dysgu yn rhieni, mae ymarfer presennol yng Nghymru yn tanlinellu ymagwedd fwy eang a chynhwysol sy'n adlewyrchu amrywiaeth o fathau o deuluoedd a deinameg teuluoedd. Yn aml caiff darpariaeth ei dargedu at "yr oedolion o amgylch y plentyn", a all gynnwys unrhyw aelod o'r teulu, neiniau a theidiau neu fam-guod a thad-cuod, rhieni maeth neu unrhyw berson mewn rôl ofalu allweddol.

Mae gwreiddiau ymarfer dysgu fel teulu yn nhraddodiadau addysg gymunedol i oedolion a datblygu cymunedol. Felly, mae ganddo gyfeiriad cynhenid at herio'r ffactorau strwythurol sy'n parhau anghydraddoldeb ac annhegwch mewn cymdeithas a helpu i dorri cylchoedd o anfantais. Mae'n gwerthfawrogi'r gwahanol gryfderau a sgiliau a ddaw dysgwyr gyda chefndiroedd a phrofiadau amrywiol i'w dysgu ac yn dechrau gyda eu hanghenion a'u buddiannau.

Ac, wrth gwrs, mae dysgu fel teulu yn hwyl!

Dolenni ac adnoddau:

Family Learning Framework Advice for Practitioners

Family Learning Works The Inquiry into Family Learning in England and Wales: Summary

Sut i ddefnyddio'r fframwaith yma:

Nid yw'r Fframwaith yn ganllaw rhagnodol "sut i". Yn hytrach, mae'n cynnig amlinelliad bras o elfennau allweddol rhaglen lwyddiannus dysgu fel teulu y gellir eu dehongli a'i chymhwyso i weddu anghenion dysgwyr penodol a'ch helpu i ddatblygu ymarfer sy'n gweddu eich cyd-destun cyflenwi eich hun.

Mae'n seiliedig ar ddealltwriaeth o ymarfer cyfredol, gyda chyfres o astudiaethau achos yn dangos sut y caiff dysgu fel teulu ei gyflwyno ar hyn o bryd drwy ystod o ddulliau ac mewn gwahanol fathau o ysgolion.

Dull partneriaeth ar draws ysgolion, partneriaethau dysgu oedolion yn y gymuned a phartneriaid ehangach.

Mae elfennau o'r broses cynllunio a chyflenwi yn cynnwys:

Ar gyfer pob un o'r elfennau hyn, mae'r fframwaith yn cynnwys:

- Crynodeb o pam ei fod yn bwysig.
- Pwyntiau allweddol yn crynhoi'r hyn a ddywed yr astudiaethau achos wrthym am "yr hyn sy'n gweithio."
- Dolenni i fwy o wybodaeth ac adnoddau.

Mae'r fframwaith hefyd yn cynnwys dau atodiad: mae'r cyntaf yn crynhoi tystiolaeth ddiweddar ar effaith dysgu fel teulu ac mae'r ail yn rhoi sylw i feysydd polisi allweddol y mae dysgu fel teulu yn gorgyffwrdd â nhw ac yn cyfrannu atynt.

Cafodd y Fframwaith ei lunio ar y cyd gan y Sefydliad Dysgu a Gwaith a'r sector dysgu fel teulu yng Nghymru ar ran Llywodraeth Cymru.

Beth sy'n gwneud partneriaeth lwyddiannus?

Pam fod hyn yn bwysig?
Mae gweithio partneriaeth yn sylfaen i gyflenwi dysgu fel teulu yn llwyddiannus. Mae'r partneriaid craidd yn cynnwys, o leiaf, ysgol a darparydd lleol dysgu fel teulu.

Mae hyn yn dod ynghyd â'r sgiliau proffesiynol, gwybodaeth a phrofiad arweinwyr ysgol, athrawon a swyddogion ymgysylltu ynghyd ag ymarferwyr addysg oedolion. Mae hyn yn rhoi ffocws deuol ar anghenion dysgu plant ac oedolion sy'n nodwedd neiltuol dysgu fel teulu.

Mae cynnwys darparydd dysgu fel teulu yn rhoi cyswllt i'r rhaglenni dysgu fel teulu i Bartneriaethau Dysgu Oedolion yn y Gymuned lleol sy'n borth i ystod ehangach o ddarpariaeth, dilyniant, gwasanaethau a chymorth. Gall partneriaid yn y trydydd sector a gwasanaethau cyhoeddus lleol fod â rôl bwysig wrth ehangu cwmpas rhaglenni lleol a chefnogi datblygu darpariaeth sydd wedi ei thargedu a'i theilwra.

Mae gweithio partneriaeth yn galluogi rhaglenni dysgu fel teulu i gael mynediad i arbenigedd, cyllid ac adnoddau, cyfleoedd dysgu a dysgwyr ar draws holl elfennau y broses cynllunio a chyflenwi y rhoddir sylw iddynt yn y Fframwaith yma.

Beth sy'n gweithio?

- Mae gan bartneriaid craidd staff penodol yn eu lle gyda chyfrifoldeb am ddatblygu a hyrwyddo dysgu fel teulu, tebyg i Swyddogion Ymgysylltu â Theuluoedd mewn ysgolion, Rheolwyr Ysgolion Bro a Chydlynwyr Dysgu fel Teulu mewn darparwyr dysgu cymunedol.
- Caiff dysgu fel teulu ei gynnwys yn y Cynllun Gwella Ysgol / Cynllun Datblygu Ysgol, gan ddangos ymrwymiad strategol yr ysgol i gefnogi a datblygu'r dull gweithredu hwn.
- Mae partneriaid yn cydweithio i ddynodi a chael mynediad i ffynonellau cynaliadwy o gyllid ac adnoddau eraill i gefnogi datblygiad a chyflenwi parhaus ar ddysgu fel teulu.

Dolenni ac adnoddau:

Partneriaethau Dysgu Oedolion yn y Gymuned: Adroddiad sector Estyn
Trosolwg o waith y 13 partneriaeth dysgu oedolion yn y gymuned sy'n gweithredu ar draws Cymru i gynllunio a chydlynu cyflenwi dysgu oedolion yn y gymuned.

Ysgolion Bro
Mae dull gweithredu ysgolion bro yn gwerthfwrogi a hyrwyddo dysgu yn y gymuned, gyda dysgu fel teulu yn rhan bwysig o hynny. Caiff canllawiau eu datblygu i gefnogi ysgolion bro sy'n cynnwys gwybodaeth ar ddysgu fel teulu a dysgu yn y gymuned.
Atodiad 4: Datblygu Trefniadau ar gyfer Ymgysylltu â'r Gymuned mewn Ysgolion Bro.

Ymgysylltu â Theuluoedd a'r Gymuned
Cyfres o ddeunyddiau canllaw ac adnoddau eraill a gynlluniwyd i roi cymorth ymarferol i ysgolion yng Nghymru i'w helpu i ddatblygu a chryfhau eu dull o ymgysylltu â theuluoedd a'r gymuned. Mae'r pwyslais ar ymgysylltu sy'n helpu teuluoedd i gefnogi dysgu eu plentyn.

Dynodi angen

Pam fod hyn yn bwysig?

I wneud y defnydd gorau o adnoddau cyfyngedig, mae'n debyg y bydd angen o leiaf rywfaint o dargedu ar raglenni dysgu fel teulu ar gyfer y teuluoedd mwyaf anghennus. Ar yr un pryd, mae'n arferol i dargedu ddigwydd o fewn dull gweithredu cyffredinol ehangach, i osgoi rhoi stigma ar rai teuluoedd a chymunedau ac ehangu'r cyfle i gymryd rhan i bawb a fedrai gael budd.

Ar gyfer darparwyr dysgu fel teulu, yr ystyriaeth allweddol fydd dynodi pa ysgolion i roi blaenoriaeth iddynt ar gyfer ymgysylltu a dull cydweithio gydag arweinwyr ysgol i gynllunio ymagweddau i gyrraedd teuluoedd. Gall targedu gael ei seilio ar grwpiau blwyddyn, dosbarthiadau neu deuluoedd unigol gyda mathau neilltuol o fregusrwydd. Mae darpariaeth dysgu fel teulu llwyddiannus wedi cyrraedd ystod eang o garfannau gyda ffocws ar adeiladu eu sgiliau.

Beth sy'n gweithio?

- Cynllunio, partneriaethau a chyd-gynhyrchu i ddefnyddio data a gwybodaeth leol i gyflenwi rhaglenni sy'n ymestyn allan i'r teuluoedd a all fod fwyaf o angen cymorth.
- Mae darparwyr dysgu fel teulu yn defnyddio data o ffynonellau swyddogol i ddynodi lefelau cymharol o angen mewn ardaloedd ysgol a dynodi ysgolion a chymunedau i roi blaenoriaeth iddynt ar gyfer ymgysylltu. Mae hyn yn cynnwys setiau data cenedlaethol tebyg i Fynegai Amddifadedd Lluosog Cymru a data a gedwir gan awdurdodau lleol ar ddangosyddion tebyg i hawl i brydau ysgol am ddim, teuluoedd bregus, sgiliau hanfodol ac anghenion Saesneg ar gyfer cymunedau lleiafrif ethnig.
- Mae gwybodaeth leol a gafwyd gan bartneriaid yn gweithio ar lawr gwlad yn galluogi darparwyr dysgu fel teulu i gael yr wybodaeth ddiweddaraf am newidiadau yn y gymuned leol a all fod yn sail i'w gwaith datblygu. Gallant gael eu hysbysu am anghenion gofalwyr ifanc, plant sy'n derbyn gofal a newydd-ddyfodiaid o gymuned benodol o ffoaduriaid neu fudwyr, a gallant fod ag amrywiaeth o anghenion cymorth y gall dysgu fel teulu helpu i'w cyfarch, ond nad ydynt yn dangos ar unwaith mewn data swyddogol.

Dolenni ac adnoddau:

Mynegai Amddifadedd Lluosog Cymru

Mesur swyddogol Llywodraeth Cymru o amddifadedd cymharol ar gyfer ardaloedd bach ar draws Cymru. Mae'n dynodi'r ardaloedd gyda'r crynoadau uchaf o nifer o wahanol fathau o amddifadedd.

“Daw’r teuluoedd yn yr ysgol o amrywiaeth o wahanol gefndiroedd diwylliannol ac mae’r cyrsiau wedi helpu rhieni i ddatblygu gwell dealltwriaeth ac ymwybyddiaeth o wahanol ddiwylliannau. Mae hyn wedi arwain at well cydlyniaeth cymunedol y tu mewn a hefyd y tu allan i’r ysgol.”

Coleg Caerdydd a’r Fro, Effaith Dysgu fel Teulu a’r Cwricwlwm Dinasyddion

Datblygu'r cwricwlwm

Pam fod hyn yn bwysig?

Mae rhaglenni dysgu fel teulu yn anelu cefnogi dysgu ar gyfer oedolion a phlant ar yr un pryd. Mae'r mathau o weithgareddau a ddaw o fewn rhaglenni dysgu fel teulu yn amrywiol tu hwnt ac yn cynnwys:

- Gweithdai creadigol unigol lle mae oedolion a phlant yn dysgu ac ymarfer sgiliau newydd gyda'i gilydd.
- Cyrsiau gydag achrediad sy'n parhau am dymor cyfan neu fwy sy'n datblygu dealltwriaeth oedolion o anghenion dysgu eu plentyn ac yn adeiladu eu sgiliau i gefnogi datblygiad eu plentyn.
- Gweithgareddau dysgu sy'n rhoi cyfleoedd i oedolion weithio ar eu sgiliau hanfodol a'u sgiliau cyflogadwyedd eu hunain.
- Dysgu iaith a all fod â ffocws ar ESOL neu'r Gymraeg ar gyfer teuluoedd.

Mae penderfynu beth sydd i'w gyflenwi, pryd, lle a sut yn broses iteraidd a gynhelir drwy bartneriaeth a dialog rhwng ysgolion, darparwyr dysgu fel teulu a dysgwyr eu hunain. Yn gyffredinol mae gan ysgolion syniad bras o'r hyn y dymunant iddo fod yn ffocws y rhaglen, wedyn mae ymarferwyr dysgu fel teulu yn gweithio gyda theuluoedd i ymchwilio eu diddordebau, anghenion a sgiliau presennol a datblygu cynnwys cyrsiau i adlewyrchu hynny.

Cyflwynodd Coleg Caerdydd a'r Fro ddull Cricwlwm Dinasyddion at ddysgu fel teulu yn 2024. Mae ffocws y cynllun "Teuluoedd yn Dysgu Gyda'i Gilydd ar gyd-gynhyrchu rhwng y Coleg a dysgwyr i ddeall eu diddordebau a'u heriau a chynllunio rhaglen ddysgu i fynd i'r afael â'u hanghenion.

Beth sy'n gweithio?

- Caiff cyrsiau dysgu fel teulu eu mapio i'r Cwricwlwm i Gymru.
- Mae ysgolion yn defnyddio gwybodaeth o ystod o ffynonellau yn cynnwys data ysgolion a chysylltiadau anffurfiol gyda phlant, rhieni a gofalwyr i ddeall anghenion dysgu eu teuluoedd.
- Mae ysgolion ac ymarferwyr addysg oedolion yn cydweitho i osod y paramedrau bras ar gyfer rhaglen dysgu fel teulu a dynodi themâu neu bynciau allweddol y byddent yn hoffi iddynt fod yn ffocws iddi.
- Caiff gweithgareddau dysgu penodol eu cyd-gynhyrchu gyda dysgwyr. Mae ymarferwyr yn cefnogi'r teuluoedd sy'n cymryd rhan i ddynodi eu diddordebau a'u sgiliau a chryfderau presennol ac adeiladu arnynt i ddatblygu rhaglen ymatebol o weithgareddau dysgu sy'n ddiddorol, perthnasol ac ysgogol.
- Mae safbwynt holisig i raglenni dysgu fel teulu, fel bod gweithgareddau dysgu yn hyrwyddo datblygu gwybodaeth a sgiliau o amgylch themâu tebyg i fwyta'n iach, ffitrwydd, iechyd meddwl a threfnu cyllideb, er mwyn cyfrannu at les ehangach teulu.

- Rhoddir sylw i sut y gall math a ffocws gweithgareddau dysgu feithrin cymhelliant a helpu i oresgyn rhwystrau i gyfranogiad. Er enghraifft, gall dysgu yn seiliedig ar sgiliau ymarferol a gwaith llaw helpu i ymgysylltu â dynion.

- Cafodd sgiliau hanfodol a sgiliau cyflogadwyedd tebyg i lunio CV eu sefydlu mewn rhaglenni dysgu fel teulu.

- Mae oedolion yn derbyn cymorth a chyngor i symud ymlaen i gyrsiau gydag achrediad a rhaglenni sgiliau cyflogadwyedd lle'n briodol a chânt eu cysylltu gyda cymorth sydd ar gael drwy Cymru'n Gweithio.

- Mae Partneriaethau Dysgu Oedolion yn y Gymuned yn cynnig rhaglenni dysgu fel teulu gyda mynediad i diwtoriaid mewn ystod eang o feysydd pwnc creadigol ac ymarferol a all gefnogi cyflenwi. Mae defnyddio'r arbenigedd hwn yn ei gwneud yn bosibl cynnig ystod amrywiol o weithgareddau hwyliog a diddorol.

- Mae darparwyr dysgu fel teulu yn mynd ati i geisio cyllid prosiect a chyllid o ffynonellau eraill tebyg i'r Loteri neu grantiau awdurdod lleol, i alluogi datblygu cyfleoedd dysgu pwrpasol sy'n cyfarch anghenion dysgu penodol y teuluoedd y maent yn gweithio gyda nhw.

- Wrth ddatblygu gweithgareddau dysgu, mae darparwyr yn ystyriol efallai mai mynediad cyfyngedig sydd gan rai teuluoedd i dechnoleg ddigidol ac maent yn cynllunio darpariaeth a chymorth i sicrhau nad yw hyn yn rhwystro cyfranogiad llawn.

Dolenni ac adnoddau:

Cwricwlwm i Gymru
Canllawiau a chymorth ar gyfer ymarferwyr ar weithio gyda'r Cwricwlwm i Gymru

Campaign for Learning: National Centre for Family Learning
Mae'r National Centre for Family Learning yn seiliedig yn Lloegr a chafodd ei datblygu gan y Campaign for Learning. Mae'n darparu adnoddau a chymorth ar gyfer dysgu fel teulu.

Coleg Caerdydd a'r Fro – Effaith Dysgu fel Teulu a'r Cwricwlwm Dinasyddion – Medi 2024.
Cafodd Cwmpas eu comisiynu gan Goleg Caerdydd a'r Fro (CAVC) i gynnal gwerthusiad o'r rhaglen 'Teuluoedd yn Dysgu gyda'i Gilydd' a chymerodd yr ysgolion yn nwyrain Caerdydd ran yn y Rhaglen Cwricwlwm Dinasyddion.

Ymgysylltu â theuluoedd

Pam fod hyn yn bwysig?

Mae dysgu fel teulu yn defnyddio dymuniad cynhenid rhieni a gofalwyr i helpu a chefnogi eu plant fel y 'bachyn' i ymgysylltu â nhw. Ar gyfer ysgolion, mae gwerth dysgu fel teulu yn bennaf oherwydd ei botensial fel model ar gyfer ymgysylltu â rhieni.

Yn anochel, yn aml y plant sy'n profi heriau sy'n cael effaith negyddol ar eu dysgu a'u cyrhaeddiad yw'r rhai y cafodd eu rhieni a gofalwyr berthynas anodd gyda'u hysgol a wynebu heriau i ddysgu eu hunain.

Mae dysgu fel teulu yn cynnig y posibilrwydd ar gyfer cysylltiadau cadarnhaol a datblygu perthynas sy'n fwy cynhyrchiol ac yn cefnogi eu gilydd. Yn dilyn pandemig Covid, pan mae tystiolaeth yn awgrymu'n gynyddol i nifer fawr o deuluoedd a theuluoedd ymddieithrio o'r ysgol i raddfa fwy neu lai, mae ysgolion yn ceisio ailgysylltu o'r newydd fel mater o frys.

Beth sy'n gweithio?

- Caiff ennyn diddordeb teuluoedd ei wneud yn fwyaf effeithion pan fo ysgol Swyddog Ymgysylltu â Theuluoedd. Fel arfer maent eisoes wedimeithrin perthynas gyda theuluoedd a gallant hyrwyddo dysgu fel teulu o sefyllfa o ymddiriedaeth.
- Caiff dysgu fel teulu ei hyrwyddo gan yr uwch dîm arweinyddiaeth o fewn yr ysgol a'i weld fel rhan ganolog o raglen gyda ffocws ar y gymuned, gyda chefnogaeth y bwrdd llywodraethwyr.
- Mae argymhelliad personol anffurfiol yn ffordd rymus o feithrin diddordeb a chymhelliant ymysg rhieni a gofalwyr. Gall ysgolion edrych ar ddatblygu rhwydwaith o eiriolwyrneu bencampwyr rhieni/gofalwyr a all helpu i roi'r gair ar led am fanteision dysgu fel teulu ac annog eraill i gymryd rhan.
- Mae ysgolion yn manteisio ar y cyfle i sefydlu gwybodaeth am ddysgu fel teulu ar draws holl weithgareddau a chyfathrebiadau yr ysgol, tebyg i nosweithiau rhieni, cylchlythyrau a gweithgareddau croesawu neu bontio ar gyfer disgyblion newydd.
- Mae ymgysylltu â dysgwyr mewn ysgolion yn defnyddio cymysgedd o ddulliau cyffredinol a dulliau wedi eu targedu. Mae cylchredeg gwybodaeth am gyfleoedd dysgu fel teulu a'r gwahoddiad i gymryd rhan i bob teulu o fewn carfan benodol yn golygu nad oes stigma ar gyfranogiad, a allai atal pobl rhag cymryd rhan. Mae ysgolion yn dilyn hyn gyda thargedu "meddal" ar deuluoedd y dymunant roi blaenoriaeth iddynt ar gyfer cyfranogiad.
- Cymerir camau ymarferol i fynd i'r afael â rhwystrau i gyfranogiad, tebyg i ddarparu crèche ar gyfer teuluoedd sydd hefyd â phlant dan oedran ysgol.

- Rhoi gofod penodol ar gyfer dysgu fel teulu – ystafell teulu y gall rhieni ei defnyddio ar gyfer cyfarfod yn anffurfiol, gan roi gofod diogel i feithrin perthnasoedd a chael mynediad i adnoddau.

- Mae gwaith allgymorth yn y gymuned gan y Swyddog Ymgysylltu â Theuluoedd a'r Rheolwr Ysgolion Bro a meithrin cysylltiadau gyda chyrff trydydd sector a gwasanaethau cyhoeddus lleol yn helpu i ymgysylltu a thargedu teuluoedd ac ymestyn cyfleoedd dysgu fel teulu i deuluoedd yn y gymuned ehangach.

"Rydym yn treulio amser yn cysylltu gyda'r teuluoedd mwyaf bregus i'w galluogi i ailgysylltu gydag addysg a dysgu ac yna eu cefnogi i symud ymlaen i ddosbarthiadau addysg oedolion neu raglenni cymorth cyflogaeth. Y targed yw cefnogi eu plant i ddysgu yn yr ysgol ond mae hyn yn galluogi'r sgwrs i ddatblygu eu sgiliau eu hun a dechrau ar eu taith."

Kellie Bellmaine, Cydlynydd Lansio Addysg Oedolion, Ysgol Gynradd Gymunedol Monkton Priordy

Dolenni ac adnoddau:

Ymgysylltu â Theuluoedd a'r Gymuned
Cyfres o ganllawiau ac adnoddau eraill a gynlluniwyd i roi cymorth ymarferol i ysgolion yng Nghymru i'w helpu i ddatblygu a chryfhau eu dull o ymgysylltu â theuluoedd a'r gymuned. Mae'r pwyslais ar ymgysylltu sy'n helpu teuluoedd i gefnogi addysg eu plant.

Ymgysylltu â Theuluoedd
Mae ymgysylltu â theuluoedd yn elfen allweddol o ddull gweithredu ysgolion bro. Caiff cyfres o ganllawiau eu datblygu i gefnogi ysgolion bro ac mae'n cynnwys gwybodaeth ar ymgysylltu â theuluoedd. Atodiad 3: Datblygu Ymgysylltu â Theuluoedd mewn Ysgolion Bro.

Cefnogi dilyniant

Pam fod hyn yn bwysig?

Mae'n gyffredin hyrwyddo dysgu fel teulu i rieni, gofalwyr ac ysgolion fel ffordd o ymgysylltu ag oedolion i gefnogi dysg eu plant. Fodd bynnag, diben allweddol dysgu fel teulu yw cefnogi dysgu a datblygu ar gyfer oedolion ar yr un pryd ac mae hyn yn brif nod i ddarparwyr addysg oedolion sy'n ymwneud â chyflenwi dysgu fel teulu.

Efallai na fydd llawer o oedolion sy'n ymwneud â dysgu fel teulu wedi manteisio o'u haddysg ddechreuol. Mae gan lawer ddiffyg hyder yn eu galluoedd addysgol a gallant gredu mai ychydig o sgiliau gwerthfawr sydd ganddynt i gael mynediad i gyflogaeth dda ac nad yw dysgu ar eu cyfer nhw. Gall eraill fod ag anghenion iaith (ESOL), sy'n cynyddu eu hanfantais addysgol.

I rai oedolion, mae'r ysgol yn gyfnod o bontio iddynt pan y gallant fod yn ystyried mynd yn ôl i weithio neu eisiau ailddechrau a sicrhau cynnydd mewn dysgu a all fod wedi ei atal oherwydd ffocws ar ofal plant.

Mae dysgu fel teulu yn cynnig porth diogel a chymorth i addysg a hyfforddiant. Mae'n rhoi cyfle i gael cyngor ac arweiniad am gyfleoedd sydd ar gael a chyfle i adolygu ac adnabod y llu o sgiliau fydd gan gyfranogwyr eisoes. Mae'r rhyngweithio yma yn ffordd i adeiladu rhwydweithiau o gymheiriaid a gweithwyr proffesiynol a all roi cymorth a hyder i symud ymlaen.

Drwy ymgyfraniad darparwyr addysg oedolion, gellir cynllunio llwybr gyda strwythur yn ôl i addysg ffurfiol a hyfforddiant gyda mynediad i gymwysterau a chymorth cyflogadwyedd.

Beth sy'n gweithio?

- Mae cefnogaeth ar gyfer dilyniant oedolion sy'n dysgu yn ganolog i raglenni dysgu fel teulu. Caiff llwybrau dilyniant eu mapio o ddysgu fel teulu ar y cam cynllunio ac maent yn cysylltu dysgwyr gyda'r ystod llawn o gyfleoedd a gynigir gan bartneriaid yn y Bartneriaeth Dysgu Oedolion yn y Gymuned a thu hwnt.
- Mae gan y Bartneriaeth Dysgu Oedolion yn y Gymuned leol rôl allweddol wrth fapio llwybrau cynnydd i ddynodi bylchau a datblygu darpariaeth newydd i fynd i'r afael â nhw.
- Defnyddir dull gweithredu seiliedig ar gryfderau i gefnogi dysgwyr i ddynodi ac adnabod eu sgiliau presennol, sy'n helpu i feithrin hyder a chymhelliant i ymchwilio cyfleoedd ar gyfer datblygu sgiliau ymhellach a chyflogaeth.
- Caiff dysgwyr gydag anghenion sgiliau hanfodol ac ESOL eu cefnogi i gael mynediad i ddarpariaeth briodol.

- Mae gan diwtoriaid dysgu fel teulu sgiliau a gwybodaeth gyfredol i gyflwyno gwybodaeth, cyngor ac arweiniad wedi'i sefydlu i ddysgwyr tra'u bod ar y rhaglen a'u cefnogi i ddynodi a chael mynediad i lwybrau dilyniant priodol tuag at ddiwedd cwrs.

- Mae darparwyr dysgu fel teulu yn rhagweithiol wrth greu cyfleoedd ar gyfer partneriaid sy'n darparu llwybrau dilyniant tebyg i gymorth sgiliau cyflogadwyedd, mynediad i gyngor addysg bellach ac addysg uwch i ymgysylltu â dysgwyr tuag at ddiwedd cwrs. Gwneir hyn drwy ddulliau tebyg i ymweliadau dosbarth, sesiynau blasu, gweithdai a dyddiau agored.

- Caiff cymorth ymarferol ei roi ar waith i helpu dysgwyr i gymryd y cam o'r ysgol a darpariaeth gymunedol i ddysgu pellach mewn coleg neu mewn lleoliadau eraill.

Dolenni ac adnoddau:

Cymru'n Gweithio
Porth sy'n rhoi gwybodaeth a mynediad i ystod o raglenni cymorth cyflogadwyedd a chyfleoedd dysgu a chefnogaeth gyrfa eraill a ariennir drwy Lywodraeth Cymru. Gall cynghorwyr roi cymorth, cyngor ac arweiniad wyneb yn wyneb neu ar-lein.

Gyrfa Cymru
Gwasanaeth gwybodaeth, cyngor a chanllawiau ar yrfaoedd i bob oed.

Ymgyrraedd yn Ehangach
Cynllun sy'n rhoi cymorth i bobl ifanc ac oedolion yn byw yn nau gwintel isaf Mynegai Amdifadedd Lluosog Cymru i gael mynediad i addysg ôl-16. Caiff cymorth ei gyflenwi drwy bartneriaethau rhanbarthol ac mae pob partneriaeth neu brifysgol partner yn rhoi manylion ar eu gwefan.

Y Brifysgol Agored yng Nghymru - OpenLearn Cymru
Casgliad o adnoddau addysgol ar-lein rhad ac am ddim a ddatblygwyd ac a drefnwyd gan y Brifysgol Agored yng Nghymru. Nid yw'n rhaid i chi ddod yn fyfyriwr y Brifysgol Agored i ddefnyddio llwyfan OpenLearn Cymru. Mae'n rhad ac am ddim, hygyrch ac mae'n rhoi cyfoeth o adnoddau addysgol i bobl ddysgu wrth eu pwysau.

Partneriaethau Addysg Oedolion yng Nghymru
Mae Partneriaethau Addysg Oedolion Cymunedol ledled Cymru, yn cynnwys awdurdodau lleol a darparwyr addysg oedolion gymunedol addysg uwch a rhwydwaith ehangach o randdeiliaid i gefnogi ymgysylltu a chynnydd.

Wythnos Addysg Oedolion – Sefydliad Dysgu a Gwaith
Mae cyfleoedd dysgu rhad ac am ddim, straeon i ysbrydoli ac adnoddau defnyddiol ar gyfer addysg oedolion ar gael ar wefan ymgyrch y Sefydliad Dysgu a Gwaith yn cynnwys cyrsiau, digwyddiadau, cymwysterau, sgiliau a dolenni i gyngor arbenigol ar gymwysterau, cyllid sgiliau a chyflogaeth.

Cyrsiau Cymunedol – Addysg Oedolion Cymru

Mae Addysg Oedolion Cymru yn cynnig amrywiaeth o ddarpariaeth gymunedol ac ar-lein a gynlluniwyd i roi llwybrau i ddysgu a dilyniant i ddysgu pellach.

"Mae gan fy nosbarthiadau ran fawr mewn helpu i chwalu rhwystrau a chefnogi llwybrau. I mi, mae'n werth chweil iawn helpu dysgwyr i symud ymlaen gyda'u Saesneg a'u gweld yn rhyngweithio'n fwy effeithlon gyda'u plant a chael hwyl gyda'i gilydd. Mae'n fraint bod â rhan yn eu taith."

Clare Jones, Tiwtor, Addysg Oedolion Cymru

Gwerthuso effaith

Pam fod hyn yn bwysig?

Mae'n bwysig deall sut mae dysgu fel teulu yn gwneud gwahaniaeth i'r teuluoedd sy'n cymryd rhan. Mae dynodi pa ddeilliannau a sicrhawyd a pha weithgareddau fu fwyaf effeithlon wrth eu cyflenwi (a'r rhai na fu'n effeithlon) yn gam hollbwysig yn y broses o ystyried, adolygu a gwella ansawdd.

Mae rhanddeiliaid yn debygol o fod â blaenoriaethau gwahanol o ran y deilliannau sydd bwysicaf iddynt ac y dymunant eu gweld o ddysgu fel teulu. Ar gyfer ysgolion, bydd ymgysylltu â rhieni a chyrhaeddiad plant yn flaenllaw, tra fod y ffocws yn fwy tebygol o fod ar gyfranogiad , cyflawniad a dilyniant oedolion ar gyfer darparwyr addysg oedolion. Bydd gan ddysgwyr eu hunain eu cymhellion personol am gymryd rhan, a'u barn eu hunain am y deilliannau y gobeithiant eu cyflawni.

Mae diffino a chytuno ar y deilliannau a fwriedir ar ddechrau rhaglen yn golygu y gellir cynllunio gweithgaeddau priodol a hefyd y gellir rhoi ystyriaeth i'r dulliau a ddefnyddir i'w gwerthuso – mewn geiriau eraill, i ganfod pa mor llwyddiannus fu'r rhaglen wrth eu cyflenwi. Dylai hefyd fod cwmpas i gasglu unrhyw ddeilliannau annisgwyl.

Beth sy'n gweithio?

- Caiff deilliannau arfaethedig dysgu fel teulu eu dynodi ar y dechrau fel y gellir cynllunio gwerthuso i ddatblygiad a chyflenwi'r rhaglen.
- Caiff data ar ddangosyddion tebyg i bresenoldeb a chyrhaeddiad plant ac ymgysylltu â theuluoedd ei adolygu a'i ddadansoddi i ddynodi cysylltiad gyda chyfranogiad teulu mewn Dysgu fel Teulu.
- Defnyddir gwerthusiadau dysgwyr ar ddiwedd cwrs i gasglu data ar fwriadau dysgwyr a deilliannau a adroddant eu hunain.
- Mae holiaduron a ddefnyddir ar ddechrau a diwedd cwrs yn casglu data ar y "pellter a deithiwyd" yng nghyswllt deilliannau dysgu allweddol. Gall mesur y buddion ehangach ac effaith gwerth cymdeithasol roi tystiolaeth rymus o effaith.
- Mae astudiaethau achos yn rhoi tystiolaeth o effaith ar lefel y dysgwr unigol, teulu neu garfan, ac yn dangos sut y cafodd hyn ei gyflawni.

Dolenni ac adnoddau:

Fframwaith Cenedlaethol Mesurau, Deilliannau a Mesurau (TOMs) 2019
Mae TOMs yn rhoi fframwaith a chanllawiau ar gyfer mesur gwerth cymdeithasol.

“Dywedodd yr ysgolion y byddai plant yn falch a chyffrous i weld eu rhieni yn yr ysgol, a roedd hyn yn golygu fod ganddynt fwy o ffocws ac yn cymryd mwy o ran yn y dosbarth. Dywedodd yr holl oedolion oedd yn ddysgwyr y gwnaethom siarad gyda nhw fod eu plentyn yn fwy parod i fynd i’r ysgol ar y dyddiau pan gynhaliwyd y cyrsiau.”

Coleg Caerdydd a’r Fro, Effaith Dysgu fel Teulu a’r Cwricwlwm Dinasyddion

Astudiaethau achos

Ysgol Gynradd Monkton Priordy
Rhaglen Lansio

Dysgu Sir Benfro
Prosiect Sbardun

Coleg Caerdydd a'r Fro
Teuluoedd yn Dysgu Gyda'i Gilydd

Partneriaeth Dysgu Oedolion yn y Gymuned Abertawe

Ysgol Uwchradd Cathays, Caerdydd
Grŵp Dysgu Rhieni

Partneriaeth Dysgu Oedolion yn y Gymuned Wrecsam a Sir y Fflint

Ysgol Gynradd Monkton Priordy: Rhaglen Lansio

Mwy o wybodaeth am y rhaglen:

Mae Uwch Dîm Arweinyddiaeth Ysgol Gynradd Monkton Priordy wedi datblygu Lansio, rhaglen ymgysylltu ac addysg oedolion, sydd wedi hen ennill ei phlwyf. Gan gynnig ystod o ddarpariaeth i ddatblygu sgiliau rhieni a'r gymuned ehangach, mae'r rhaglen yn ymateb i anghenion lleol ac yn cyflwyno cyfleoedd ar gyfer dysgu anffurfiol gyda dilyniant i addysg uwch.

Rhaglen Lansio Ysgol Gynradd Gymunedol Monkton Priordy

Uchafbwyntiau:

- Mae cannoedd o bobl yn y gymuned wedi cael pasbort diogelwch safle a dangosodd adolygiad diweddar yr aeth 90% o'r rhai a gymerodd ymlaen i sicrhau cyflogaeth.
- Mae'r cynllun wedi datblygu cwrs a gafodd achrediad mewn Ymwybyddiaeth o Gam-drin Domestig.
- Mae partneriaeth gyda Phrifysgol Cymru Y Drindod Dewi Sant yn cyflwyno cwrs allgymorth Sylfaen a Graddau mewn Cynhwysiant Cymdeithasol.
- Caiff dysgu fel teulu a sgiliau hanfodol, cyflwyniad i gwrs gwaith crèche a chyflwyniad i iechyd meddwl i gyd eu cyflenwi'n barhaus.
- Mae cymorth ychwanegol yn cynnwys cyfeirio at asiantaethau ar gyfer tai, cam-drin domestig, Cyngor Ar Bopeth a help i llenwi ffurflenni.

"Hanfod prosiect addysg oedolion Lansio yn Ysgol Gynradd Gymunedol Monkton Priordy yw grymuso rhieni a'r gymuned i gyfoethogi eu haddysg, datblygu sgiliau ar gyfer cyflogaeth a meithrin diwylliant o ddysgu gydol oes sy'n ysbrydoli cenedlaethau'r dyfodol."

Kellie Bellmaine, Cydlynydd Lansio Addysg Oedolion, Ysgol Gynradd Gymunedol Monkton Priordy

Coleg Caerdydd a'r Fro: Teuluoedd yn Dysgu Gyda'i Gilydd

Cardiff and Vale College
Coleg Caerdydd a'r Fro

Mwy o wybodaeth am y rhaglen:

Uchafbwyntiau:

- Cyrraedd, ymgysylltu a chefnogi nifer uchel o deuluoedd drwy bartneriaethau sydd wedi hen ennill eu plwyf rhwng y coleg ac ysgolion lleol.
- Dull seiliedig ar ddata i ddynodi'r ardaloedd lleol lle mae'r angen mwyaf.
- Caiff cynnwys y cwrs ei gynllunio ar y cyd â dysgwyr.
- Defnyddio dull seiliedig ar gryfderau i gefnogi dysgwyr i adnabod a gwerthfawrogi eu sgiliau presennol. Mae hyn yn helpu i gynyddu cymhelliant, hunan-dyb a hyrwyddo dilyniant i ddysgu pellach, datblygu sgiliau a gwaith.
- Mae'r coleg yn cynnig cymorth ymarferol i helpu dysgwyr i symud ymlaen o ddysgu yn y gymuned i ddarpariaeth bellach. Mae wedi datblygu cyrsiau pontio pwrpasol newydd ar gyfer dysgwyr dysgu fel teulu sydd angen cymryd camau llai.
- Mae effeithiau ehangach yn cynnwys cefnogi rhieni i gefnogi plant, meithrin perthynas gadarnhaol rhwng ysgolion a rhieni, rhiant a phlentyn, datblygu perthynas gadarnhaol gyda'r gymuned a chydlyniant cymunedol, gan greu ymdeimlad o berthyn, gwella hyder ac iechyd a lles cyfranogwyr.

Trosolwg o'r ddarpariaeth:

Caiff Teuluoedd yn Dysgu gyda'i Gilydd ei gyflwyno mewn ysgolion gan dîm o ddeg tiwtor dysgu fel teulu gyda statws athro cymwys o Goleg Caerdydd a'r Fro. Mae'n seiliedig ar egwyddor cefnogi rhieni a gofalwyr i gefnogi dysg eu plant. Mae'r cyrsiau yn canoli o amgylch y tymhorau ysgol ac maent fel arfer yn parhau am ddeg wythnos. Targedwyd y ddarpariaeth at deuluoedd gyda phlant o meithrin i Gyfnod Allweddol 3. Mewn un tymor, mae'r rhaglen yn cefnogi dros 400 o deuluoedd a thua 900 o gyfranogwyr unigol, gan gynnal mwy na 50 o gyrsiau a chysylltu gyda dros 50 ysgol (drwy gyfrwng y Gymraeg a'r Saesneg) ar draws Caerdydd a Bro Morgannwg. Cafodd y ddarpariaeth ei chyflenwi ar-lein yn ystod y pandemig. Caiff y rhaglen ei chyllido drwy gyllid Addysg Bellach rhan-amser y coleg ac mae ganddi achrediad Agored Cymru.

Cardiff and Vale College
Coleg Caerdydd a'r Fro

Dynodi angen:
Mae'r coleg yn defnyddio data o Fynegai Amddifadedd Lluosog Cymru i ddynodi ysgolion yn yr ardaloedd mwyaf difreintiedig yng Nghaerdydd a'r Fro. Er y caiff Teuluoedd yn Dysgu gyda'i Gilydd ei gynnig i bob ysgol y nod yw gweithio yn yr ardaloedd gyda'r sgôr uchaf yn y Fynegai a rhoddir ystyriaeth i ffactorau eraill tebyg i gael cyfran uchel o ddysgwyr ESOL. Cafodd perthynas gadarnhaol ac ymddiriedaeth gydag ysgolion ei feithrin ac mae hyn yn arwain at gydweitho i ateb deilliannau dysgu ar gyfer plant a theuluoedd, tra'n cyflawni'r uchelgais o ddatblygu ysgolion bro.

Datblygu'r cwricwlwm:
Mae tiwtoriaid arbenigol sy'n canolbwyntio ar ESOL, Cymraeg a STEM yn cyflenwi ynghyd â meysydd craidd datblygu llythrennedd, rhifedd a sgiliau digidol. Caiff y ddarpariaeth ei chyflenwi'n holistig a chaiff dysgwyr ESOL hefyd eu cyfeirio at gymorth ychwanegol a gaiff ei ddarparu drwy'r coleg a phartneriaid cymunedol, sy'n hyrwyddo cydraddoldeb, amrywiaeth a chynhwysiant.

Mae allgau digidol (mynediad i dechnoleg a sgiliau) yn rhwystr sylweddol i rai rhieni a chynlluniwyd darpariaeth i gyfyngu'r effaith ar ddysgu ond hefyd i ddatblygu sgiliau llythrennedd digidol gydag oedolion. Caiff datblygu sgiliau digidol ei ymwreiddio i'r holl ddosbarthiadau a chaiff dysgwyr fynediad am ddim i Office 365. Caiff llawer eu cyfeirio at gyrsiau penodol mewn sgiliau digidol o fewn y gymuned a'r coleg.

Caiff cynllun y cwrs ei greu ar y cyd gyda dysgwyr drwy asesiad llinell sylfaen o angen, sgiliau ac uchelgais. Mae'r dull hwn wedi dangos lefelau uchel o gadw a chwblhau llwyddiannus.
Mae hyn yn galluogi'r ddarpariaeth i gael effaith uniongyrchol ar ddysgwyr ac maent yn gwerthfawrogi'r cyfle hwn gan ei fod yn adlewyrchu eu huchelgais. Mae enghreifftiau o hyn yn cynnwys ffocws ar gyflogadwyedd mewn gwahanol sectorau, arbed arian ar-lein, cadw'n ddiogel ar-lein a cyllidebau teulu.

Ymgysylltu â theuluoedd:
Ymgysylltir â dysgwyr ar y cyd rhwng y coleg a'r ysgolion sy'n cymryd rhan, drwy allgymorth gyda Swyddog Ymgysylltu â Theuluoedd, posteri a gohebiaeth i rieni. Caiff gwybodaeth am y cyrsiau ei gylchredeg i bob teulu i sicrhau cynhwysiant. Yn ychwanegol, mae ysgolion yn gwneud peth ymyriadau gyda ffocws drwy gysylltu'n uniongyrchol â theuluoedd a ffonio rhieni a gofalwyr i'w hannog i gymryd rhan.

Mae gan ysgolion rôl ganolog wrth fod yn rhagweithiol yn hyrwyddo dysgu fel teulu ac mae cefnogaeth a chymeradwyaeth ledled yr ysgol (gan arweinwyr ysgol a staff wrth y glwyd) yn hollbwysig wrth ymgysylltu â theuluoedd. Mae hyn yn rhoi hyder i rieni a gofalwyr fod y ddarpariaeth yn gefnogol a pherthnasol ac y bydd yn cefnogi datblygiad eu plentyn.

"Gofynnwn fod aelod o'r staff yn dod i'r maes chwarae gyda ni i ymgysylltu a hyrwyddo'r rhaglenni. Mae'n cael mwy o argraff os yw pennaeth yr ysgol yn dod gyda ni oherwydd ei fod yn rhoi pwysigrwydd iddo, ond gallant hefyd ein cyfarwyddo i gysylltu gyda'r rhieni a fyddai'n cael y budd mwyaf o'r rhaglen."

Cardiff and Vale College
Coleg Caerdydd a'r Fro

Mae rôl y Swyddog Ymgysylltu â Theuluoedd mewn ysgolion yn aml yn allweddol i gyrraedd ac ymgysylltu yn llwyddiannus â rhieni. Mae'r Swyddog eisoes wedi dechrau meithrin perthynas gyda rhieni a gofalwyr a gall helpu i gyflwyno dysgu fel teulu a gweithredu fel canolwr dibynadwy rhwng teuluoedd a staff y coleg.

Lle mae rôl y Swyddog wedi sefydlu'n dda, mae hyn fel arfer yn dangos fod gan yr ysgol berthynas gadarnhaol gyda'i theuluoedd ac i'r gwrthwyneb mae heriau am ymgysylltu gyda rhaglenni dysgu fel teulu yn tueddu i fod â'u gwreiddiau mewn problemau yng nghyflwr ehangach perthynas rhwng ysgol a rhieni:

"Mae'n aml yn rhwyddach ennyn diddordeb rhieni yn y rhaglen lle maent eisoes yn ymwneud ag ysgol drwy foreau coffi a rhaglenni cymunedol ehangach.

"Mae'r rhaglen yn rhoi cyfle i ddatblygu'r polisi Ysgolion Bro sy'n hyrwyddo'r angen i ysgolion weithio'n agos gyda theuluoedd i roi'r amgylchedd dysgu gorau posibl yn y cartref a sicrhau fod gan deuluoedd y sgiliau, yr hyder a'r adnoddau i gefnogi dysgu eu plant yn y cartref."

Cefnogi dilyniant:
Mae cefnogi oedolion i ymgysylltu, dysgu a sicrhau cynnydd yn nodau allweddol mewn rhaglenni dysgu fel teulu. Ni chaiff hyn ei wneud yn amlwg ar y dechrau, gan y sylweddolir mai cymhelliant dechreuol rhieni a gofalwyr dros gymryd rhan yw'r manteision a fydd yn ei roi ar gyfer datblygiad eu plentyn. Wrth i'r cwrs fynd yn ei flaen, mae rhieni a gofalwyr yn dechrau bod â ffocws ar ddatblygu eu sgiliau a'u huchelgais eu hunain a datblygu eu taith eu hunain fel dysgwyr.

"Mae'n rhyfeddol sut mae rhieni a gofalwyr yn mwynhau cefnogi eu plant mewn dysgu ac ystyried sut y gallent gael 'ail gyfle' ar eu taith ddysgu eu hunain wrth iddynt symud ymlaen drwy'r cwrs."

Mae pob dysgwr yn cwblhau asesiad llinell sylfaen dechreuol ac asesiad terfynol i fesur eu cynnydd. Mae'r wybodaeth hon yn bwydo i greu Cynllun Dysgu Unigol, sy'n helpu cyfranogwyr i osod eu targedau eu hunain ac yn dynodi a gwerthfawrogi'r sgiliau sydd ganddynt eisoes. Mae'n aml yn syndod adnabod y sgiliau a gawsant drwy fagu teulu a rhedeg cartref ac mae'r hunan-fyfyrio yma yn tanio eu huchelgais eu hunain.

Mae'r dull gweithredu hwn sy'n seiliedig ar gryfder yn hanfodol, oherwydd i lawer o'r oedolion sy'n ymuno â'r rhaglen gael profiadau gwael o addysg ddechreuol, heb fawr neu ddim cymwysterau ac heb sylweddoli i ddechrau fod ganddynt unrhyw sgiliau gwerthfawr.

Lle mae dysgwyr angen cymorth gyda sgiliau hanfodol neu ESOL, cânt eu cefnogi i symud ymlaen yn syth o ddysgu fel teulu i gyrsiau eraill o fewn y coleg neu yn y gymuned. Rhoddir cymorth ymarferol i hwyluso dilyniant o ddarpariaeth yn yr ysgol i ddarpariaeth yn y coleg, gan y sylweddolir fod hwn yn gam enfawr i lawer o ddysgwyr. Yn wythnos olaf ond un y cwrs, mae'r holl ddysgwyr yn ymuno â'r tîm dysgu fel teulu ar ymweliad dilyniant i'r coleg sy'n cynnwys taith o amgylch y cyfleusterau, cyfleoedd i siarad wyneb yn wyneb gyda thiwtoriaid, cael cyngor gan y tîm arweiniad gyrfaoedd a darparwyr addysg oedolion yn ehangach; gweithgareddau tebyg i ysgrifennu CV, yn ogystal â help i lenwi ffurflenni ymrestru ar gyfer cyrsiau cam nesaf.

Gan sylweddoli nad yw pob dysgwr yn barod i symud ymlaen o ddarpariaeth gymunedol i ddarpariaeth yn y coleg, mae'r coleg wedi cyflwyno llwybrau dilyniant newydd o fewn y ddarpariaeth dysgu fel teulu. Mae gan ddysgwyr yr opsiwn i ddilyn cyrsiau pellach mewn dysgu fel teulu ar lefel uwch, gyda ffocws ar eu cymuned a datblygu sgiliau drwy ymchwil a dweud stori. Mae meysydd allweddol yn canolbwyntio ar Addysg Bersonol a Chymdeithasol, Addysg Gysylltiedig â Gwaith a rhoi gwybodaeth, cyngor ac arweiniad a gaiff ei sefydlu yn y cwrs.

Gwerthuso effaith:
Mae gwerthuso effaith yn hollbwysig yn nhermau olrhain taith y dysgwr yn feintiol ac yn ansoddol. Caff dilyniant ei olrhain os yw dysgwyr yn cymryd rhan mewn cyrsiau pellach yn y coleg a drwy Bartneriaeth Dysgu Cymunedol Caerdydd a'r Fro, os yw eu camau nesaf i ddarpariaeth a gyflwynir drwy'r rhwydwaith hwn o ddarparwyr. Mae ffocws data meintiol ar ymrestru, cadw a chwblhau dysgwyr (yn cynnwys deilliannau cymhwyster, ynghyd â bwriadau dilyniant).

Mae pa ysgolion a'u lleoliad yn bwysig o ran cyrraedd ac effaith ar ardaloedd amddifadus. Caiff gwybodaeth ansoddol ei chasglu o wybodaeth llinell sylfaen ddechreuol ar fannau dechrau dysgwyr, y pellter a deithiwyd, drwy gynnydd ar Gynlluniau Dysgu Unigol a gwerthusiad diwedd cwrs lle caiff gwybodaeth ei chasglu o safbwyntiau'r plentyn, rhiant/gofalwr a'r ysgol. Mae'r triongli hwn yn rhoi gwybodaeth gyfoethog am lwyddiant pob cwrs a meysydd ar gyfer datblygu rhaglen ymhellach.

Gwersi a ddysgwyd:
Heriau

- Sicrhau cyllid cynaliadwy i gyflenwi anghenion sy'n dod i'r amlwg.
- Datblygiad personol parhaus ar gyfer staff i gyd-greu cwricwlwm newydd yn seiliedig ar angen (heb fod yn rhagnodol).
- Integreiddio'r cwricwlwm i fodelau cyflenwi presennol.
- Anodd penderfynu ar ddeilliannau cwrs os cânt eu creu ar y cyd gan arwain at anghysondeb.
- Gall fod yn anodd gwneud y cwricwlwm yn ddiddorol a pherthnasol i fywyd myfyrwyr ond mae'n ganolog i'w lwyddiant.
- Mae cydweithio gyda darparwyr eraill i gyflenwi uchelgais dysgwyr yn sylfaenol.
- Dysgu cymheiriaid ymysg tiwtoriaid ar gyd-greu a dylunio cwricwlwm dan arweiniad dysgwyr.

Buddion:

- Cynhwysiant: Mae dysgwyr yn teimlo wedi eu grymuso ac yn llenwi bylchau yn eu sgiliau a'u gwybodaeth.
- Cyfranogiad weithgar: Annog trafodaeth iach am faterion o fewn eu cymuned eu hunain,
- Cydlynant cymdeithasol: Hyrwyddo parch un at y llall, dealltwriaeth a meithrin cydlyniaeth gymunedol.
- Datrys gwrthdaro: Rhoi'r sgiliau i ddysgwyr i ddatrys gwrthdaro yn heddychlon a chymryd rhan mewn dialog adeiladol.
- Datblygiad personol: Myfyrwyr yn datblygu hunanhyder a all eu helpu gyda newidiadau a heriau bywyd.
- Gwella sgiliau meddwl beirniadol a datrys problemau.
- Staff yn dysgu gan ddysgwyr ar yr hyn sy'n bwysig iddynt.
- Cynllunio cwricwlwm: Mae dysgu seiliedig ar brosiect yn cynnwys dysgwyr mewn prosiectau sy'n trin materion go iawn yn eu cymunedau. Mae'r dull hwn yn helpu i roi'r hyn a ddysgant ar waith mewn ffyrdd ymarferol, ystyrlon.
- Digwyddiadau cyfoes: cynnwys trafodaethau ar ddigwyddiadau cyfoes a chynhennus i helpu dysgwyr i ddeall gwahanol safbwyntiau a datblygu sgiliau meddwl beirniadol.
- Trefnu trafodaethau ar wahanol bynciau i annog dysgwyr i ymchwilio, lleisio eu barn a pharchu gwahanol safbwyntiau.
- Dysgu ar y cyd: Defnyddio prosiectau grŵp i feithrin cydweithio a gwaith tîm. Mae hyn yn helpu dysgwyr i ddysgu gweithio gydag eraill tuag at nodau cyffredin.
- Siaradwyr gwadd: Gwahodd arweinwyr cymunedol, arbenigwyr a swyddogion cyhoeddus i siarad gyda dysgwyr am eu rôl a'u profiadau mewn bywyd dinesig.

Ysgol Uwchradd Cathays: Grŵp Dysgu Rhieni

Mwy o wybodaeth am y rhaglen:

Uchafbwyntiau:

- Mae'r ysgol yn ariannu Cydlynydd Dysgu fel Teulu un-swydd a mewnol ac mae dysgu fel teulu yn ganolog i'w hymagwedd at ymgysylltu â theuluoedd.
- Mae'r ysgol yn gweithio gyda darparwyr addysg oedolion, cyrff trydydd sector a gwasanaethau cyhoeddus i gynnig rhaglen eang o gyrsiau, gweithdai a sesiynau codi ymwybyddiaeth i ddiwallu anghenion penodol ei theuluoedd a'r gymuned yn ehangach.
- Mae'r rhaglen yn defnyddio dull wedi ei bersonoli a seiliedig ar gryfderau i gefnogi dilyniant, sy'n adeiladu ar sgiliau a gwybodaeth presennol dysgwyr, gan alluogi dilyniant i wirfoddoli, dysgu pellach a chyfleoedd cyflogaeth.
- Cyfarfod gyrfaoedd dysgu fel teulu bob tymor a gweithgareddau eraill wedi eu teilwra a'u targedu yn cysylltu dysgwyr gyda darparwyr lleol Addysg Bellach ac Addysg Uwch, cymorth cyflogadwyedd a chyflogwyr.
- Mae gwerthusiad ac adolygiad chwarterol yn casglu tystiolaeth o effaith a thrwytho datblygiad a gwella parhaus ar y rhaglen.

Trosolwg o'r ddarpariaeth:

Mae Ysgol Uwchradd Cathays yn ysgol uwchradd gymysg cyfrwng Saesneg 11-19 oed yng nghanol Caerdydd.

Mae ganddi dros 1,269 disgybl ar y gofrestr, gyda 40.7 y cant yn gymwys am brydau ysgol am ddim a 28 y cant â Saesneg fel iaith ychwanegol. Mae adroddiad ei harolwg olaf (2022) yn disgrifio'r ysgol fel cymuned ddysgu gynhwysol iawn ac uchelgeisiol lle mae disgyblion a staff yn ffynnu.

Caiff dysgu fel teulu ei gyflwyno drwy Grŵp Dysgu Rhieni yr ysgol a'i gydlynu gan aelod penodol o staff a gyflogir gan yr ysgol. Sefydlwyd y Grŵp Dysgu Rhieni i roi ffordd wedi'i strwythuro i'r ysgol i ymgysylltu a chefnogi rhieni a gofalwyr i gefnogi dysgu eu plant. Mae'n anelu rhoi dysgu fel teulu wrth graidd dull gweithredu holistig sy'n cefnogi teuluoedd i fynd i'r afael â'r ystod o heriau sy'n atal plentyn rhag ffynnu. Caiff gweithgareddau dysgu eu teilwra i anghenion teuluoedd yn yr ysgol a'r gymuned ehangach a chânt eu cyflwyno yn bennaf mewn safleoedd yn y gymuned oherwydd rhesymau gofod.

Drwy bartneriaethau gydag Addysg Oedolion Caerdydd, Addysg Oedolion Cymru, Prifysgol Metropolitan Caerdydd: ehangu mynediad, cyrff trydydd sector a darparwyr gwasanaethau cyhoeddus lleol, mae'r cydlynydd wedi datblygu rhaglen eang o gyrsiau dysgu oedolion yn y gymuned gydag achrediad a heb achrediad, gweithdai a sesiynau codi ymwybyddiaeth. Mae ffocws cryf ar ddilyniant i gyflogaeth a dysgu pellach.

Dynodi angen:

Caiff y rhaglen dysgu fel teulu ei chynllunio o amgylch anghenion penodol iawn teuluoedd yn yr ysgol. Mae'r cydlynydd yn cynnal dadansoddiad anghenion i greu proffil, sy'n rhoi dealltwriaeth sylfaenol i lywio siâp a chynnwys bras y rhaglen. Er enghraifft, mae disgyblion Cathays yn siarad 73 o wahanol ieithoedd, a dangosodd hynny yn syth fod dosbarthiadau ESOL yn flaenoriaeth ac awgrymu'n gryf fod angen cymorth gyda sgiliau digidol. Yn yr un modd, awgrymodd y gyfran uchel o deuluoedd incwm isel fod llawer o oedolion yn debygol o gael budd o help gyda chyllidebu a rheoli costau byw. Daw bron 85.9% o deuluoedd o gymuned Ddu, Asiaidd a Lleiafrif Ethnig (BAME). Mae 61% o blant dan oruchwyliaeth Anghenion Dysgu Ychwanegol (ADY).

Datblygu'r cwricwlwm:

Mae dysgu fel teulu yn Cathays yn cynnwys rhaglen gyfannol o weithgareddau ar gyfer oedolion gan integreiddio dysgu i gefnogi addysg plant ac ymgysylltu system yr ysgol yn effeithlon gyda sgiliau hanfodol (llythrennedd, rhifedd a digidol), sgiliau cyflogadwyedd a sgiliau ar gyfer llesiant ehangach tebyg i iechyd corfforol a iechyd meddwl a chyllid teulu. Caiff sgiliau hanfodol eu cynnig fel pynciau o'u rhan eu hunain a hefyd eu cynnwys mewn cyrsiau eraill. Mae bron yr holl ddysgwyr dysgu fel teulu wedi ymrestru ar gyrsiau ESOL. Mae ystod a ffocws y cyfleoedd addysg oedolion a gynigir wedi esblygu a thyfu gyda dealltwriaeth ddyfnach y cydlynydd o anghenion a diddordebau dysgwyr, o grŵp dechreuol a sefydlwyd i ddatblygu sgiliau rhieni a gofalwyr i gefnogi darllen plant. Mae sesiynau diweddar yn cynnwys sesiynau gydag achrediad a heb achrediad tebyg i:

- Cymorth gyda derbyn i'r ysgol
- Cymorth gyda gwneud cais am swyddi
- Arweiniad ar CV a sgiliau cyfweld
- Cyfeirio at asiantaethau allanol
- ESOL
- Cynyddu hyder
- Llesiant rhieni a phlant
- Sgiliau gofal plant
- Sgiliau digidol (Microsoft Word/taenlenni)
- Sgiliau rhifedd (cyllidebu)
- Sgiliau creadigol
- Coginio iach
- Yoga
- Theori Gyrru ar gyfer dysgwyr ESOL
- Prosiect pencampwr cymunedol imiwneiddio
- Prynhawn coffi

Bu datblygu partneriaethau cyflenwi ar y cyd gydag ystod o ddarparwyr dysgu lleol, gwasanaethau cyhoeddus, cyrff trydydd sector a busnesau yn allweddol ar gyfer y cynnig cwricwlwm eang a amrywiol hwn. Mae hyn yn galluogi'r ysgol i gael mynediad i gyllid ac arbenigedd ac ar yr un pryd weithio gyda partneriaid a deilwriwyd i anghenion teuluoedd lleol. Er enghraifft:

- Caiff llawer o'r cyrsiau eu cyflwyno gan Addysg Oedolion Caerdydd, Addysg Oedolion Cymru a Phrifysgol Metropolitan Caerdydd drwy eu cyllidebau addysg ysgolion a defnyddiant safleoedd awdurdodau lleol yn cynnwys llyfrgelloedd a chanolfannau cymunedol.
- Cyflwynwyd gweithdai ar amrywiaeth o bynciau gyda phartneriaid yn y trydydd sector a'r sector cyhoeddus. Mae hyn yn cynnwys ymwybyddiaeth o ddiabetes gyda Diabetes UK a iechyd dannedd, atal ysmygu, ymwybyddiaeth o imiwneiddio a bwyta'n iach gyda Iechyd Cyhoeddus Cymru.
- Sefydliadau eraill sy'n cefnogi'r ysgol yw EYST, TMR, Cruse, Food4all, BAWSO a Cymorth i Ferched Cymru.
- Mae archfarchnadoedd lleol yn cyfrannu bwyd ar gyfer gweithdai ar fwyta'n iach, yn ogystal â chefnogi clybiau brecwast a dosbarthiadau coginio. Mae Food4all yn gwneud cyfraniad sylweddol drwy eu prosiect gwirfoddolwyr.

Lle dynodir bylchau yn y ddarpariaeth bresennol, mae'r cydlynydd yn gweithio gyda phartneriaid i'w trin. Er enghraifft, caiff cwrs dwyieithog newydd ar hylendid bwyd, a gyflwynir yn Saesneg, Bengaleg ac Urdu, ei ddatblygu mewn partneriaeth gyda'r awdurdod lleol a bydd yn targedu menywod a hoffai weithio mewn arlwyo a lletygarwch.

Yn yr un modd, roedd y gymuned eisiau bod yn annibynnol mewn sgiliau gyrru. Ond roedd angen iddynt dalu'r prawf theori felly gwnaethant ddechrau ar y theori gyrru yn defnyddio'r cyfleusterau llyfrgell.

Caiff y rhan fwyaf o'r ddarpariaeth ei chynnig mewn safleoedd cymunedol mewn cymdogaethau allweddol lle mae'r teuluoedd targed yn byw, yn cynnwys Llyfrgell Cathays, Pafiliwn Grange a EYST yn Butetown.

Ymgysylltu â theuluoedd:

Mae ymgysylltu â dysgwyr yn digwydd drwy gymysgedd o ddulliau wedi eu targedu a rhai cyffredinol. Mae rôl y cydlynydd yn hanfodol ar gyfer ymgysylltu â dysgwyr, felly maent yn gweithredu fel canolwyr dibynadwy rhwng yr ysgol a'i theuluoedd a hefyd yr ysgol a'r gymuned leol.

Mae ymgysylltu wedi ei dargedu yn canolbwyntio ar rieni a gofalwyr plant sydd wedi ymrestru yn Cathays sydd â lefelau isel o gyrhaeddiad mewn Saesneg a mathemateg. Yn y lle cyntaf, fe'u gwahoddir i ymuno â gweithdy i ddatblygu eu sgiliau i cefnogi dysgu eu plant. Mae hyn yn rhoi cyfle i'r Cydlynydd Dysgu fel Teulu ddynodi yn anffurfiol unrhyw anghenion am addysg oedolion, rhoi gwybodaeth am gyfleoedd ac annog unigolion i gymryd rhan.

Er mai'r teuluoedd hyn yw'r prif grŵp targed ar gyfer dysgu fel teulu, caiff y rhaglen hefyd ei chynnig i deuluoedd eraill yn yr ysgol a hefyd i aelodau'r gymuned ehangach.

Mae'r dull cyffredinol hwn yn cynnwys hyrwyddo rhaglen dysgu fel teulu pob tymor drwy ystod o ddulliau yn cynnwys gwefan yr ysgol, cyfryngau cymdeithasol, llyfrgelloedd, ysgolion lleol eraill a mudiadau cymunedol sydd mewn cysylltiad gyda darpar ddysgwyr (e.e. mudiad i fenywod Bangladeshaidd lleol). Mae rhieni a gofalwyr yn derbyn gwybodaeth am gyfleoedd dysgu fel teulu pan fo plentyn yn ymuno â'r ysgol.

Cafodd y Grŵp Dysgu Rhieni ei gynnal am fwy na deg mlynedd ac mae ganddo enw da iawn yn lleol. Fel canlyniad, mae argymhellion personol nawr hefyd yn gweithredu fel dull grymus ar gyfer lledaenu gwybodaeth yn awtomatig am gyfleoedd dysgu fel teulu a chynyddu diddordeb a chymhelliant ymysg darpar ddysgwyr.

I helpu mynd i'r afael â'r rhwystrau ehangach i gyfranogiad sy'n wynebu rhai unigolion, mae'r ysgol wedi ffurfio perthynas gref gydag asiantaethau a mudiadau cymorth lleol yn cynnwys Tîm Rhianta Caerdydd ac elusennau sy'n gweithio mewn meysydd fel trais yn y cartref, digartrefedd a thlodi bwyd. Lle caiff angen ei ddynodi, caiff dysgwyr eu cyfeirio at gymorth priodol. Serch hynny, mae'r ysgol yn sylweddoli fod ganddi fwy i'w wneud i gyrraedd oedolion o rai cymunedau ac ennyn eu diddordeb mewn dysgu fel teulu, yn neilltuol y cymunedau Somaliaidd a Roma Tsieciaidd.

Cefnogi dilyniant:
Mae cefnogi dilyniant i oedolion i ddysgu pellach a chyflogaeth yn nod allweddol dysgu fel teulu yn Cathays. Ers dechrau'r rhaglen cafodd bron 50 o fenywod eu cefnogi i waith a rolau gwirfoddol. Mae gan y cydlynydd ddull wedi ei bersonoli a seiliedig ar gryfder at gynllunio dilyniant. Mae hyn yn cynnwys dynodi, gwerthfawrogi ac egluro i ddysgwyr unigol beth yw eu sgiliau a'u profiad presennol, deall eu huchelgeisiau ac adeiladu ar y sylfeini hyn i ddatblygu hyder personol a dynodi anghenion dysgu a chyfleoedd ar gyfer dilyniant.

"Rwy'n eithaf sicr fod pobl yn ddihyder oherwydd nad ydyn nhw'n medru adnabod eu sgiliau eu hunain. Felly, y foment y dechreuwch wneud iddynt gredu, oes, mae gennych rinwedd, os, mae gennych sgil – mae'n ymwneud ag adnabod y sgiliau hynny."

Christina Roy, Cydlynydd Dysgu fel Teulu, Grŵp Dysgu Rhieni, Ysgol Uwchradd Cathays

Lle'n bosibl, caiff llwybrau mynediad i gyflogaeth eu dynodi ar gyfer unigolion sydd wedi eu seilio mewn sgiliau sydd ganddynt eisoes. Mae'r dull hwn yn helpu i feithrin hyder a chymhelliant a hefyd yn golygu fod dysgwyr yn symud ymlaen yn eithaf cyflym unwaith y cafodd bylchau penodol mewn sgiliau a chymwysterau eu cyfarch. Er enghraifft, caiff menywod gyda sgiliau coginio yn y cartref eu cefnogi i ennill cymwysterau mewn hylendid bwyd sy'n golygu y gallant weithio mewn arlwyo a diwydiannau bwyd eraill. Yn yr un modd, caiff y ffaith nad yw dysgwyr yn siarad Saesneg fel ail gyntaf, ei ail-fframio fel cryfder, gan roi cyfleoedd i gael mynediad i swyddi amlieithog.

“Rwyf bob amser yn rhoi sylw i’r sgiliau iaith sydd ganddynt. Os yw rhywun yn siarad Urdu, Bengaleg neu Arabeg, byddaf yn canolbwyntio ar y sgil honno a gwneud yn siŵr fod ganddynt lwybr cyflogaeth gyda’r sgil honno. Felly dyna yw eu pwynt cryfaf. Y cyfan sydd angen iddynt wneud yw cynyddu eu sgiliau mewn ESOL. Ac yna, gan ddefnyddio’r ddwy sgil maent angen i edrych am swyddi. Felly mae swyddi fel y sector gofal, cynorthwywyr addysgu dwyieithog neu arolygwyr amser cinio.”

Christina Roy, Cydlynydd Dysgu fel Teulu, Grŵp Dysgu Rhieni, ysgol Uwchradd Cathays.

Mae amrywiaeth o gymorth bersonol ar gael i helpu’r holl ddysgwyr i symud ymlaen o’r Grŵp Dysgu Rhieni i ddysgu pellach a/neu gyflogaeth neu wirfoddoli. Eto, mae partneriaethau gydag asiantaethau a mudiadau eraill yn hanfodol i’r broses yma.

- Ar ddiwedd pob tymor ysgol, mae’r ysgol yn hwyluso cyfarfod gyrfaoedd dysgu fel teulu sy’n cynnwys partneriaid allanol yn cynnwys Gyrfa Cymru, Coleg Caerdydd a’r Fro, Prifysgol Metropolitan Caerdydd, Cyngor y Gweithlu Addysg, y cyngor lleol ac asiantaethau cyflogaeth mewn sectorau perthnasol.

- Caiff dysgwyr sydd angen cymorth gyda sgiliau cyflogadwyedd eu hatgyfeirio at ddarpariaeth briodol neu deuir â darparwyr allanol i mewn i gyflwyno gweithgareddau pwrpasol (e.e. sgiliau cyfweld) drwy’r Grŵp Dysgu Rhieni.

- Ar gyfer dysgwyr sy’n dymuno symud ymlaen i ddarpariaeth mewn coleg Addysg Bellach, mae’r cydlynydd yn trefnu ymweliadau grŵp gyda thywysydd fel y gallant weld beth i’w ddisgwyl a chânt eu cefnogi gyda chamau cyntaf tebyg i ymrestru a chael eu cerdyn ID myfyrwyr.

- Mewn rhai achosion, mae ymuno â chwrs dysgu fel teulu yn y coleg yn rhoi cam interim i ddysgwyr sydd angen symud ymlaen yn arafach i ddarpariaeth allanol.

- Trefnwyd ymweliadau prifysgol i sefydliadau addysg uwch Caerdydd ac ymhellach i ffwrdd i godi ymwybyddiaeth ymysg rhieni a gofalwyr o sut y gallai bywyd prifysgol fod, i’r plentyn a hefyd iddynt hwythau.

- Lle mae amgylchiadau ariannol tebyg i oedran, iechyd neu gyfrifoldebau gofalu yn golygu na all dysgwyr symud ymlaen i waith, cânt eu cefnogi i gael mynediad i ddysgu pellach neu wirfoddolwyr.

Unwaith y bydd dysgwyr wedi symud ymlaen o’r Grŵp Dysgu Rhieni, mae’r cydlynydd yn parhau mewn cysylltiad â nhw ac yn gweithredu fel ffynhonnell o wybodaeth a chyfeirio i gefnogi dilyniant pellach cyhyd ag mae angen hynny.

Model Dysgu fel Teulu

Dysgu Oedolion yn y Gymuned

- Sgiliau llythrennedd
- Sgiliau rhifedd
- Sgiliau digidol
- Sgiliau bywyd
- Gwella hyder

Ysgol

- Iechyd a llesiant
- Presenoldeb, ymddygiad a chyrhaeddiad
- Cymwysterau

Dysgu pellach a chyflogaeth

- Llwybrau i ddysgu pellach
- Mwy o gyfleoedd swyddi
- Cyfleoedd gwirfoddoli
- Gwell ansawdd bywyd
- Twf a datblygiad personol
- Perthnasoedd teulu cryfach

Cymorth cymunedol

- Mynediad i wybodaeth ac arweiniad
- Cyfeirio at wasanaethau cymunedol
- Llai ynysig
- Partneriaeth a chydweithio gyda chyrff trydydd sector a gwasanaethau cyhoeddus lleol
- Darparu cyfleusterau i ddysgu
- Ysbrydoliaeth a chyfleoedd i ddysgu

Grŵp Dysgu Rhieni 2025, Model Dysgu fel Teulu

Cefnogi dilyniant:
Cynhelir gwerthusiad ac adolygiad bob pedwar mis i gasglu tystiolaeth o effaith a bod yn sail i ddatblygu'r rhaglen yn y dyfodol. Mae tri llinyn i'r dull gwerthuso:

- Samplo data bob tymor ar blant y mae eu rhieni yn mynychu'r Grŵp Dysgu Rhieni i ddynodi eu cynnydd mewn tair agwedd wahanol (presenoldeb, ymddygiad a chyrhaeddiad). Caiff data ei fonitro ar gyrhaeddiad ar gyfer Saesneg, Mathemateg a Gwyddoniaeth i ymchwilio gwella ac os oes cysylltiad gyda chyfranogiad oedolyn o fewn y teulu wrth iddynt gefnogi eu plant gartref.
- Mesur cyflawniad cymwysterau a dilyniant oedolion i fwy o addysgu, cyflogaeth a gwirfoddoli.
- Datblygu astudiaethau achos i gasglu dilyniant ar lefel y teulu, yn cynnwys deilliannau ehangach mewn meysydd tebyg i iechyd a llesiant.

Dolenni ac adnoddau:

Adroddiad Arolwg Estyn: Ysgol Uwchradd Cathays 2022

Dysgu Sir Benfro: Prosiect Sbardun

Mwy o wybodaeth am y prosiect:

Learning Pembrokeshire
Sir Benfro yn Dysgu

Uchafbwyntiau:

- Caiff ei ariannu ar y cyd gan y gwasanaeth addysg oedolion a'r ysgolion sy'n cymryd rhan.
- Mae ysgolion yn cydnabod fod dysgu fel teulu yn fodel grymus ar gyfer ennyn diddordeb teuluoedd yn addysg eu plant ac ym mywyd yr ysgol.
- Caiff gweithgareddau dysgu fel teulu eu cyflwyno drwy brosiectau blaengar ac uchelgeisiol yn defnyddio cyfuniad o weithdai a chyrsiau sy'n amrywio o 2-6 wythnos mewn hyd Mae ffocws cryf ar ddatblygu sgiliau ymarferol a chreadigol dysgwyr a chael hwyl tra'n sefydlu sgiliau hanfodol; mae dysgu yn yr awyr agored yn elfen allweddol o'r rhaglen.
- Sicrhawyd cyllid Lluosi o fis Mai 2023 – mis Chwefror 2025 i ymestyn a chryfhau cyfleoedd addysg oedolion Sbardun er mwyn cefnogi oedolion i sicrhau deiliannau dysgu gydag achrediad, symud ymlaen i ddarpariaeth sgiliau hanfodol a chael cefnogaeth i gyfarch rhwystrau ychwanegol i addysg a gwaith.

Trosolwg o'r ddarpariaeth:

- Mae Sbardun yn rhoi cyfleoedd i deuluoedd gymryd rhan mewn gweithgareddau dysgu uchelgeisiol, creadigol ac ymarferol sy'n hyrwyddo oedolion i ymgysylltu ag ysgol ac addysg eu plant. Mae'n bartneriaeth rhwng Dysgu Sir Benfro, gwasanaeth addysg oedolion y cyngor sir ac ysgolion lleol. Wedi ei sefydlu yn wreiddiol fel prosiect Cymunedau yn Gyntaf, caiff y rhaglen yn awr ei hariannu yn uniongyrchol gan yr ysgolion sy'n cymryd rhan. Mae pob ysgol yn talu £9,000 y flwyddyn ac yn derbyn un diwrnod yr wythnos o weithgareddau dysgu fel teulu am y flwyddyn.

- Mae cyfraniad yr ysgolion yn talu am Gynghorydd Sbardun i weithio gyda'r ysgol, tiwtoriaid dysgu fel teulu ac adnoddau. Caiff swydd cydlynydd Sbardun ei hariannu drwy grant addysg oedolion creiddiol Dysgu Sir Benfro gan Lywodraeth Cymru.

- Bu Sbardun yn llwyddiannus yn eu cais am gyllid Lluosi i gynyddu ac ehangu'r ddarpariaeth fel y gallai gyrraedd yn ehangach, ac y gallai ei waith ddatblygu rhaglen o weithgareddau i oedolion yn unig i ategu ei gynnig dysgu fel teulu.

- Caiff gweithgareddau dysgu fel teulu eu cyflwyno yn yr ysgol gynnal yn defnyddio model dysgu fel teulu pwrpasol yn cyfuno gweithdai gyda chyrsiau o wahanol hyd. Mae faint o amser y mae oedolion a phlant yn ei dreulio yn dysgu gyda'i gilydd yn amrywio yn seiliedig ar yr hyn a ystyrir yn briodol ar gyfer y plant ym mhob grŵp oedran. Yn ymarferol, mae hyn yn golygu fod plant iau yn treulio llai o amser yn y gweithdai ac mae'r ymrwymiad yn cynyddu ar gyfer disgyblion Cyfnod Allweddol 2.

Gyda chyllid Lluosi, gallodd Sbardun ehangu i weithio gydag 16 ysgol gynradd yn Sir Benfro. Cyn hyn, roedd y rhaglen wedi cyflwyno peth gweithgaredd gyda theuluoedd disgyblion Blwyddyn 7 mewn ysgol uwchradd. Gallai unrhyw oedolyn sy'n aelod o deulu plentyn yn yr ysgol gymryd rhan. Cyn cyllid Lluosi cysylltwyd â thua 700 o oedolion bob blwyddyn – tua 100 fesul ysgol. Gyda chyllid Lluosi cynyddodd y lefelau oedd yn cymryd rhan i dros 1,500 o oedolion.

Dynodi angen:
Mae Dysgu Sir Benfro yn dynodi ysgolion targed i gymryd rhan yn Sbardun, gan ddefnyddio data lleol ar y nifer ar gofrestri ysgol a hawl i brydau ysgol am ddim. Wedyn cysylltir ag ysgolion a'u gwahodd i ymuno â'r rhaglen. Mae'r ysgolion sy'n cymryd rhan yn tueddu i fod mewn rhannau o'r sir sydd â lefelau uchel o dlodi ac anfantais ehangach. Maent yn ymaflyd gydag ystod o heriau sy'n effeithio ar ddysg a chyrhaeddiad plant ac yn edrych am ffordd gadarnhaol i gysylltu gyda theuluoedd. Mae ysgolion yn gwerthfawrogi prosiect Sbardun am ei allu i ymgysylltu â theuluoedd y maent wedi dynodi eu bod angen cymorth. Gall plant fod yn ei chael yn anodd yn y dosbarth ac yn dangos presenoldeb ac ymddygiad gwael, gydag athrawon yn gwerthfawrogi y gallai hynny fod wedi ei gysylltu â phroblemau teuluol cymhleth a chymorth cyfyngedig gyda dysgu yn y cartref. Mae penaethiaid ysgolion yn sylweddoli fod dysgu fel teulu yn cynnig ffordd o ymgysylltu â theuluoedd sydd â'r potensial i fynd i'r afael ag achosion gwraidd cyrhaeddiad isel yn amgylchedd cartref y plentyn. Yn dilyn y pandemig, roedd ysgolion yn arbennig o awyddus i gyrraedd ac ymgysylltu â rhieni, llawer ohonynt wedi bod heb fawr iawn o gysylltiad gydag ysgol eu plentyn yn ystod y cyfnod clo ac efallai heb fod ar safle'r ysgol ers cryn amser.

Datblygu'r cwricwlwm:
Caiff rhaglen bwrpasol o weithdai a chyrsiau ei datblygu ar gyfer pob ysgol gan ei Chynghorydd Dysgu fel Teulu mewn ymgynghoriad gydag arweinwyr yr ysgol. Ym mhob achos, caiff darpariaeth ei fapio ar y Cwricwlwm i Gymru, sy'n llywio cynllunio a datblygiad pob gweithdy/cwrs. Y nod yw sicrhau fod gweithgareddau yn berthnasol ac yn cefnogi plant ac oedolion yn eu teuluoedd i ddatblygu'r nodweddion a amlinellir ym mhedwar diben craidd y Cwricwlwm i Gymru.

"Rydyn ni'n ceisio gwneud popeth i deuluoedd y mae'r Cwricwlwm i Gymru yn ceisio ei wneud ar gyfer plant."

Cydlynydd Sbardun

Yn ychwanegol, gall uwch reolwyr mewn ysgolion unigol ddynodi pynciau yr hoffent iddynt gael eu cynnwys yn eu rhaglen, sy'n adlewyrchu blaenoriaethau o fewn cynllun gweithredu'r ysgol. Er enghraifft, gofynnodd ysgolion am ddarpariaeth gyda ffocws ar werthoedd yr ysgol, mathemateg, llefaredd, dysgu awyr agored, y Gymraeg a cymhwysedd digidol.

Cynlluniwyd y gweithdai i apelio at ystod o ddiddordebau ymysg oedolion mewn teuluoedd. Maent yn cynnig y cyfle i gymryd rhan mewn gweithgareddau diddorol a chreadigol tebyg i roboteg Lego, crochenwaith, adeiladu, byw yn y gwyllt a choginio, gan gyfrannu at brosiectau uchelgeisiol. Er enghraifft, dros y 2 flynedd ddiwethaf mae dysgwyr Sbardun wedi helpu i adeiladu 4 tŷ crwn, 2 lwybr byrddau a chreu nifer fawr o furluniau mawr a gwaith mosaig i wella amgylchedd dysgu awyr agored eu hysgolion partner. Caiff sgiliau hanfodol eu hymwreiddio yn narpariaeth Sbardun mewn ffordd sy'n greadigol ac mewn cyd-destun.

Yn dilyn y pandemig fe wnaeth Sbardun ganolbwyntio ar ddatblygu gweithgareddau i gefnogi sgiliau llefaredd plant gan y cydnabyddid yn eang fod hwn yn faes o angen mawr yn dilyn y pandemig. Drwy ei gyllid Lluosi, symudodd ffocws Sbardun tuag at gynyddu sgiliau mathemateg rhieni a phlant gan ddefnyddio dull creadigol a ddaeth â mathemateg bywyd go iawn i weithdai gan gefnogi rhieni i symud ymlaen i ddysgu gydag achrediad, gwirfoddol a llwybrau cyflogaeth.

Ymgysylltu â theuluoedd:
Unwaith y mae ysgol wedi ymuno â Sbardun cynhelir digwyddiad lansio dechreuol ar ddiwedd diwrnod ysgol sy'n cynnig amrywiaeth o weithdai blasu am ddim sydd ar agor i bawb. Mae staff Sbardun yn hyrwyddo'r digwyddiad hwn drwy wasanaethau ysgol ac apiau ysgol tebyg i Class Dojo a SeeSaw. Mae oedolion sy'n cymryd rhan yn y lansio yn ymrestru i ddechrau ar weithdai unigol dwy awr a amserwyd i gyd-daro gyda dechrau neu ddiwedd y diwrnod ysgol.

Y bachyn ar gyfer ymgysylltu yw'r elfennau creadigol, hwyliog ac ymarferol sy'n sylfaen i bob gweithdy. Mae rhai ysgolion wedi bod eisiau ymwneud yn amlwg â sgil hanfodol neilltuol yn arbennig darllen, o'r cychwyn cyntaf ond dengys profiad fod y galw yn fwy cyfyngedig pan ddefnyddir y dull hwn. Mae'r rhaglen yn gwneud ymgysylltu â theulu cyffredinol a hefyd wedi ei dargedu. Yn gyntaf caiff y digwyddiad lansio ei hyrwyddo yn gyffredinol, gan fod hyn yn osgoi achosi stigma i deuluoedd. Caiff taflenni yn hyrwyddo gweithgareddau newydd eu rhannu bob hanner tymor drwy apiau ysgol fel Class Dojo a gall rhieni sicrhau lle ar gyrsiau yn defnyddio dolen Microsoft neu drwy anfon neges destun/ffonio staff Sbardun.

Pan fydd y prosiect wedi ennill ei blwyf ac yn boblogaidd gyda phob teulu, mae Cynghorydd Sbardun wedyn yn targedu teuluoedd y byddai'r ysgol yn hoffi'n neilltuol i'r prosiect ymgysylltu â nhw, a phan fo mwy o alw nag o leoedd ar y cyrsiau, mae staff Sbardun yn cydlynu gyda Swyddogion Cyswllt Teulu yr ysgol i weld pwy y byddai'r ysgol yn hoffi iddynt gael blaenoriaeth o blith pawb a fynegodd ddiddordeb.

Mae oedolion sy'n dymuno ymuno â gweithdy/cwrs yn cofrestru eu diddordeb drwy ffurflen ar-lein. Mae galw uchel am leoedd fel arfer felly mae Cynghorwyr yn ceisio eu dyrannu mewn ffordd mor deg ag sydd modd.

“Nid y cyntaf i’r felin yw hi fel arfer, oherwydd na fyddai hynny’n deg mewn rhai achosion. Nid yw rhai pobl ar eu ffôn i fedru ymateb yn syth. Felly, er enghraifft, rydyn ni’n dweud, iawn gadewch i ni sicrhau oherwydd mai dyna’n tymor cyntaf yn yr ysgol honno, ein bod yn rhoi cyfle i bob plentyn wneud rhywbeth gyda’u rhiant fel blaenoriaeth. Ac wedyn rydyn ni’n edrych ar roi cyfle i wahanol oedolion, ac yna oedolion gyda gwahanol siblingiaid.”

Mae Cynghorwyr Dysgu fel Teulu yn rheoli rhestri aros ar gyfer pob gweithdy.Mae’r ffurflen ar-lein yn dangos os yw cwrs yn llawn ac yn cynnig y cyfle i ymuno â rhestr aros.

Pan fydd oedolion wedi cwblhau un gweithdy, mae Sbardun yn anelu i geisio cynyddu lefel yr ymrwymiad fel eu bod yn symud ymlaen i gwrs a gynhelir dros ddau i bedwar sesiwn. Mae’r dull hwn yn cydnabod yr angen i gynnig camau bach ar gyfer oedolion sy’n newydd i ddysgu ac nad ydynt efallai yn hyderus neu sydd ag amheuon am gymryd rhan.

Mae galluedd tîm dysgu fel teulu Sbardun i ateb y galw yn her barhaus. Mae’r model o weithdai/cyrsiau byr yn ddwys gan fod pob un angen eu defnyddiau marchnata a hyrwyddo a ffurflen ymrestru eu hunain, a gellir cyflwyno hyd at wyth gweithdy bob hanner tymor ym mhob ysgol.

Dynodwyd swyddi newydd Swyddogion Cyswllt Teuluoedd mewn ysgolion fel ffynhonnell bosibl o alluedd ychwanegol, gyda swyddogion yn gweithio mewn partneriaeth â staff Sbardun i gefnogi datblygiad a darpariaeth.

Mae cynnig y ddarpariaeth mewn ysgolion yn allweddol er mwyn ymgysylltu â rhieni, oherwydd ei bod yn lleoliad lleol, cyfarwydd a dibynadwy. Ar yr un pryd, gall y ffaith fod Sbardun rywfaint ar wahân ac yn annibynnol o’r ysgol wneud rhieni yn fwy parod i gymryd rhan.

Cefnogi dilyniant:
Mae Sbardun yn fodel ar gyfer ymgysylltu â theuluoedd ac mae gan ysgolion gymhelliant i’w ariannu oherwydd y credant y bydd yn cael effaith ar eu disgyblion. Gyda phwysau ariannol ar ysgolion, mae penaethiaid yn ei chael yn anodd ariannu gweithgareddau sy’n benodol ar gyfer sicrhau deilliannau ar gyfer oedolion. Mae hefyd yn wir ei bod yn annhebygol y byddai un neu ddau weithdy yn ddigon i feithrin perthynas o ymddiriedaeth fyddai angen i Gynghorwyr Dysgu fel Teulu gael sgyrsiau ystyrlon gydag oedolion am eu hanghenion dysgu.

I gyfarch yr heriau hyn mae Sbardun wedi sicrhau cyllid digonol gan Lluosi i gynnig i ystod ehangach o gyfleoedd dysgu fel teulu a rhoi mwy o gefnogaeth ar gyfer addysg a dilyniant oedolion.

Drwy gyllid Lluosi gallodd Sbardun gynnig gweithgareddau dysgu fel teulu gydag achrediad a heb achrediad yn cynnwys mathemateg mewn ysgolion i greu llwybr dilyniant o ddarpariaeth anffurfiol Sbardun i sgiliau hanfodol gydag achrediad yn rhan o ddysgu fel teulu. Mae'r ddarpariaeth hon a ariannwyd gan Lluosi hefyd wedi galluogi staff i ymroi amser i gynnig gwybodaeth, cyngor ac arweiniad un-i-un ar gyfer oedolion i ymchwilio'r camau nesaf a gwneud atgyfeiriadau neu gyfeirio at ddarpariaeth ddysgu pellach, cymorth cyflogadwyedd a chefnogaeth i gyfarch anghenion ehangach tebyg i iechyd a thai drwy gysylltiadau gyda Rhwydwaith Cymorth i Deuluoedd Sir Benfro.

Gwerthuso effaith:
Mae Sbardun wedi profi yn ddull effeithlon iawn ar gyfer ysgolion i ymgysylltu gyda'u teuluoedd. Mae'r ysgolion lle caiff ei gynnig yn sylweddoli ei werth a dywed penaethiaid ei fod wedi creu diwylliant o ymgysylltu â theuluoedd ledled yr ysgol.

Mae tiwtoriaid yn caglu deilliannau a hunan-adroddir ar gyfer pob gweithdy gan oedolion a phlant, gan ddefnyddio holiaduron sy'n cynnwys cwestiynau penodol wedi'u mapio i bedwar diben dysgu yn y Cwricwlwm i Gymru.

Mae cyfeiriad presennol Sbardun tuag at ymgysylltu yn golygu fod ffocws y data a gasglwyd gan ddysgwyr wedi bod ar sut mae'r gweithgareddau wedi eu galluogi i ddod yn fwy hyderus, bod â mwy o sgiliau, bod â mwy o gymhelliant a theimlo mwy o gysylltiad gyda thaith addysgol eu plentyn.

Wrth edrych i'r dyfodol, mae staff Sbardun yn obeithiol y gallant adeiladu ar lwyddiant y gwaith a gyllidir gan Lluosi a chynyddu eu gwaith partneriaeth gyda sefydliadau eraill i gefnogi dysgwyr gyda dilyniant. Bydd gweithio partneriaeth cryf, hyblyg ac ymatebol yn allweddol ar gyfer creu llwybrau dilyniant clir, cryf a pherthnasol ar raddfa fawr ar gyfer dysgwyr.

Partneriaeth Addysg Oedolion Abertawe

Mwy o wybodaeth am y bartneriaeth:

Uchafbwyntiau:

- Mae'r ddarpariaeth ar gael mewn ysgolion cynradd. Mae dysgu fel teulu yn ganolog i ddull ysgolion o ymgysylltu a chefnogi teuluoedd.
- Mae ffocws ar lefaredd ar draws dysgu fel teulu mewn ysgolion cynradd.
- Caiff darpariaeth bwrpasol yn y gymuned ar gyfer teuluoedd gydag anghenion penodol a chymhleth ei datblygu mewn partneriaeth gyda chyrff trydydd sector a gwasanaethau cyhoeddus.
- Mae Partneriaeth Addysg Oedolion Abertawe yn mapio a chefnogi llwybrau dilyniant ar gyfer oedolion o ddysgu fel teulu i ystod eang o ddarpariaeth yn cynnwys sgiliau hanfodol, Cymunedau am Waith, hyfforddiant galwedigaethol ac addysg uwch.

Trosolwg o'r ddarpariaeth:

Mae Partneriaeth Addysg Oedolion Abertawe yn darparu dysgu fel teulu mewn ysgolion cynradd. Mae cyrsiau yn rhedeg naill ai am flwyddyn lawn (30 wythnos) neu un tymor (deg wythnos). Caiff cyrsiau byrrach pwrpasol hefyd eu darparu yn y gymuned. Gwasanaeth Dysgu Gydol Oes yr awdurdod lleol sy'n arwain ar ddysgu fel teulu o fewn y Bartneriaeth. Mae'n cyflogi tiwtoriaid neilltuol ar ddysgu fel teulu ac yn defnyddio arbenigedd o bob rhan o'r Bartneriaeth i gefnogi darpariaeth. Caiff y gwaith ei ariannu gan grant addysg oedolion y Gwasanaeth Dysgu Gydol Oes. Cafodd gyllid ar gyfer darpariaeth benodol o'r Grant Datblygu Disgyblion mewn rhai ysgolion.

Caiff dysgu fel teulu ei gefnogi'n dda gan yr ysgolion cynnal a chyfeirir ato yng nghynlluniau datblygu ysgolion. Mae dysgu fel teulu yn ffurfio rhan o ddull ehangach i gyfarch y bylchau a adawodd mewn dysgu a datblygiad plant a chafodd ffocws cryf ar lefaredd ei gynnwys yn y rhaglen o'r cyswllt cyntaf. Mae llwybrau dilyniant ar draws y Bartneriaeth yn cynnig cyfleoedd hyd at ac yn cynnwys addysg uwch seiliedig yn y gymuned.

Dynodi angen:
Mae ysgolion yn dynodi pa garfan i roi blaenoriaeth iddi a beth ddylai ffocws y ddarpariaeth fod, yn seiliedig ar eu dealltwriaeth o anghenion disgyblion a'u teuluoedd. Mae'r ddarpariaeth mewn ysgolion cynradd yn bennaf gyda theuluoedd plant yn y Cyfnod Sylfaen, gan fod ysgolion wedi canfod mai'r grŵp hwn sydd â'r angen mwyaf am gymorth yn dilyn y pandemig. Mae llawer o blant yn hwyr wrth ddatblygu eu lleferydd a sgiliau i ryngweithio gyda'u cyfoedion, ac ychydig o gyfle a gafodd rhieni i feithrin perthynas gyda'r ysgol.

Fel arfer cafodd darpariaeth seiliedig yn y gymuned ei datblygu mewn ymateb i geisiadau gan grwpiau cymunedol sydd mewn cysylltiad gyda theuluoedd sydd ag anghenion cymorth cymhleth a phenodol. Er enghraifft, cynigiwyd dysgu fel teulu yn rhan o raglen ehangach o gymorth i deuluoedd yn Abertawe o'r gymuned ymfudwyr o Affrica gan gynnwys gweithgareddau i ddatblygu ymwybyddiaeth a dealltwriaeth oedolion o bynciau yn cynnwys diogelu a'r Cwricwlwm i Gymru.

Datblygu'r cwricwlwm:
Caiff cyrsiau dysgu fel teulu eu datblygu mewn partneriaeth rhwng ysgolion a thiwtoriaid, gyda ffocws deuol ar gefnogi dysg plant a hefyd oedolion. Mae'r rhaglen dysgu fel teulu ar gyfer ysgolion cynradd wedi ei seilio ar feithrin sgiliau a dealltwriaeth oedolion o sut mae plant yn dysgu, gan hefyd roi cyfleoedd i ddysgwyr ddatblygu eu sgiliau hanfodol eu hunain. Mewn blynyddoedd diweddar, mae'r ddarpariaeth wedi datblygu ffocws ar lefaredd ar ôl i gynghorwyr ysgol Abertawe ddynodi fod anawsterau lleol penodol gyda datblygiad sgiliau llefaredd plant. Rhoddir blaenoriaeth i lefaredd yn awr a chaiff ei sefydlu drwy'r holl ddarpariaeth ac fel arfer dyma'r maes sgiliau cyntaf a gaiff sylw mewn cwrs dysgu fel teulu, a ddilynir gan ddarllen, ysgrifennu a mathemateg. Cafodd datblygu sgiliau digidol hefyd ei sefydlu. Mae gan y rhaglen achrediad Agored Cymru.

Caiff sesiynau eu strwythuro yn ddau ran. Yn gyntaf, mae oedolion yn dysgu gyda'i gilydd, gan gael gwybodaeth a sgiliau yn gysylltiedig â'r hyn mae eu plant yn ddysgu yn yr ysgol a gyda rhai sesiynau ar eu sgiliau hanfodol eu hunain.

Wedyn mae plant yn ymuno am ail ran y sesiwn fel y gall oedolion roi cynnig ar y sgiliau newydd y gwnaethant eu dysgu a defnyddio unrhyw adnoddau neu ddeunyddiau y maent wedi eu creu.
Mae tiwtoriaid dysgu fel teulu yn defnyddio tiwtoriaid oedolion addysg o bob rhan o'r Bartneriaeth i gefnogi darpariaeth drwy weithgareddau fydd yn hwyliog a difyr ac ychwanegu amrywiaeth at y profiad dysgu. Mae'r dull hwn hefyd yn helpu i ddatblygu ymwybyddiaeth oedolion o gyfleoedd dysgu eraill sydd ar gael iddynt tu hwnt i ddysgu fel teulu.
Gellir hefyd ddatblygu darpariaeth bwrpasol i ymateb i anghenion neilltuol.

Er enghraifft, roedd ysgolion gyda chyfran uchel o deuluoedd ar incwm isel yn cefnogi banciau bwyd ond gwnaethant sylweddoli nad oedd gan lawer o rieni a gofalwyr y sgiliau i ddefnyddio'r bwyd yr oeddent yn ei gyflenwi. Gofynnwyd i'r tîm dysgu fel teulu os gallent helpu drwy ddatblygu darpariaeth gyda ffocws ar goginio a bwyta'n iach. Gwnaed hyn mewn partneriaeth gyda thiwtor coginio dysgu oedolion yn y gymuned sydd hefyd yn athrawes ysgol, a chafodd ei ran-ariannu drwy Grant Cymorth Tlodi yr awdurdod lleol. Mae ysgolion lleol eraill wedi gwneud cais yn ddilynol am gyrsiau tebyg.

Mae'r Bartneriaeth yn awyddus i ehangu darpariaeth ond mae'n wynebu her wrth fedru recriwtio tiwtoriaid gyda chymwysterau addas yn lle'r rhai sydd wedi ymddeol. Yn ddelfrydol, mae'n edrych am ymarferwyr gyda chyfuniad o brofiad addysgu cynradd neu uwchradd a sgiliau hanfodol, ynghyd â'r gallu i gynnwys llythrennedd ddigidol. Yn hanfodol, mae hefyd angen iddynt fedru gweithio yn "amgylchedd pobl eraill". Mae'r gallu i ddefnyddio'r arbenigedd eang o fewn y Bartneriaeth wedi helpu i greu cyfleoedd newydd ar gyfer darpariaeth. Er enghraifft, methodd y tîm dysgu fel teulu â recriwtio tiwtor cyfrwng Cymraeg, ond drwy weithio gyda Choleg Gŵyr Abertawe mae wedi dynodi tiwtor sy'n siarad Cymraeg a all gyflwyno dysgu fel teulu mewn ysgolion Cymraeg.

Ymgysylltu â theuluoedd:
Fel arfer mae'r ymgysylltu dechreuol drwy sesiwn flasu y gwahoddir pob teulu yn y garfan darged i'w mynychu i ganfod mwy am sut mae eu plentyn yn dysgu yn yr ysgol. Mae'r dull cyffredinol yma'n osgoi gosod stigma ar deuluoedd unigol.

Bydd ysgolion yn gwneud peth targedu cynnil drwy hysbysu rhieni am y ddarpariaeth a'u hannog i fynd er budd eu plentyn, a gall partneriaid cyflenwi yng ngwasanaethau eraill y cyngor a chyrff trydydd sector sydd mewn cysylltiad â theuluoedd yn y garfan darged hefyd gyfeirio darpar ddysgwyr at y rhaglen.

Ystyrir bod y ffaith fod gweithgaredd ymgysylltu ag o leiaf beth darpariaeth yn digwydd mewn ysgolion yn ffactor hollbwysig yn llwyddiant y rhaglen. Mae'n helpu i osod dysgu fel teulu fel rhan o fywyd ysgol ac yn rhoi hygrededd iddo yn llygaid rhieni a gofalwyr. Mae ysgolion yn dda wrth ymgysylltu â theuluoedd ac mae cyrsiau'n tueddu i fod â mwy o alw am leoedd nag sydd o leoedd ar gael.

Cefnogi dilyniant:
Caiff dilyniant ar gyfer oedolion ei gynnwys yn y rhaglen o'r cychwyn cyntaf. Unwaith yr ymgysylltwyd ag oedolion drwy fachyn cefnogi dysgu eu plant, mae'r tiwtoriaid dysgu fel teulu yn asesu eu sgiliau ac anghenion yn anffurfiol drwy sgwrsio, gweld sut maent yn rhyngweithio gyda'u plant, cynnig gweithgareddau ysgrifennu am ddim ac yn gyffredinol ddod i'w hadnabod a meithrin perthynas ac ymddiriedaeth.

Mae hyn yn arwain yn naturiol at drafodaethau yn ystod y cwrs am ba ddysgu a datblygu sgiliau yr hoffent ei wneud nesaf. Ar y cyfan, mae oedolion yn ymddangos yn fwy cysurus wrth ddatgelu eu hanghenion dysgu eu hunain i ymarferydd sydd wedi cysylltu gyda'r ysgol ond tu allan iddi.

Mae prosesau cynllunio'r Bartneriaeth yn hollbwysig ar gyfer mapio llwybrau dilyniant o ddysgu fel teulu, yn arbennig i ddarpariaeth arall a gynigir gan y Gwasanaeth Dysgu Gydol Oes a'r partneriaid allweddol eraill (Addysg Oedolion Cymru, Coleg Gŵyr Abertawe a Phrifysgol Abertawe), ac ar gyfer dynodi unrhyw fylchau sydd angen eu cyfarch. Mae'r gwasanaeth yn sicrhau fod gan diwtoriaid dysgu fel teulu ddealltwriaeth gadarn o'r llwybrau dilyniant o'r cwrs a lled yr hyn sydd ar gael drwy'r Bartneriaeth a thu hwnt. Mae rhannu gwybodaeth am y cyfleoedd hyn yn ffocws allweddol mewn cyfarfodydd tîm.

"Felly mae tiwtoriaid yn gwybod fod llwybr clir ar gyfer rhywun sy'n ymuno â ni ar efallai Cyn-mynediad neu Mynediad 1 sydd angen cymorth gyda'u darllen. Gallwn gynnig sesiynau un i un i feithrin hyder fel y gallant ymuno â dosbarth. Gallwn gynnig cymwysterau Mynediad 1 a Mynediad 2 mewn llythrennedd, rhifedd a llythrennedd digidol. Gallwn symud dysgwyr i Goleg Gŵyr Abertawe ar gyfer y Lefel 3 os ydynt angen y cwrs Mynediad. Felly rydym yn gwybod y caiff llwybr clir ei gynnig yn y gymuned o cyn-mynediad gyda dysgu gydol oes hyd at lefel gradd ym Mhrifysgol Abertawe."

Tuag at ddiwedd y cwrs, daw partneriaid i mewn i siarad gyda dysgwyr am y cyfleoedd dilyniant sydd ar gael. Er enghraifft:

- Mae mentoriaid Cymunedau am Waith yn siarad gyda rhieni am gyfleoedd cyflogaeth. Cânt eu gwahodd yn gyson i roi sgwrs ar ddilyniant i ddysgwyr ar ddiwedd y cwrs ac mae rhai dysgwyr wedi symud ymlaen o ddysgu fel teulu i ddarpariaeth sgiliau hanfodol a Cymunedau am Waith.

Mae'r Bartneriaeth yn sylweddoli y gall fod rhwystrau lluosog i ddysgu yn wynebu llawer o oedolion yr ymgysylltir â nhw drwy ddysgu fel teulu, yn cynnwys diffyg hyder yn eu galluoedd addysgol eu hunain, profiad blaenorol gwael o ddysgu, cynni ariannol a chyfrifoldebau gofal plant. Felly, mae sicrhau bod cyfleoedd dilyniant yn hygyrch yn ystyriaeth allweddol. Er enghraifft, mae gan rai ysgolion gyfran uchel o ddysgwyr gydag anghenion ESOL ond, oherwydd cyfyngiadau diwylliannol, ni fyddai menywod yn medru mynychu dosbarthiadau ESOL y tu allan i'r ysgol felly mae'r tîm dysgu fel teulu wedi gweithio gyda Choleg Gŵyr Abertawe ac Addysg Oedolion Cymru i ddatblygu a chyflwyno ESOL ar y safle. Yn yr un modd, mae Coleg Gŵyr Abertawe wedi cyflwyno cyrsiau Cynorthwywyr Addysgu, sy'n llwybr dilyniant poblogaidd o ddysgu fel teulu, mewn mannau cymunedol, gydag oedolion yn gwneud eu lleoliad gwaith yn ysgol eu plentyn.

Gwerthuso effaith:
Ar ddiwedd pob cwrs, gofynnir i ddysgwyr gofnodi ar eu ffurflen gadael beth maent yn fwriadu ei wneud nesaf. Mae hyn yn galluogi'r Bartneriaeth i gasglu tystiolaeth o fwriad, er nad oes ganddynt ddull systematig ar waith i fonitro canlyniadau gwirioneddol. Er y dylai fod yn bosibl ar bapur i olrhain cynnydd o fewn y Bartneriaeth, yn ymarferol nid oes dull i wneud hyn ac mae pryderon am GDPR yn llesteirio rhannu data.

Mae'r Bartneriaeth wedi datblygu astudiaethau achos i gasglu enghreifftiau o ddilyniant oedolion i Addysg Bellach, Addysg Uwch ac i waith.

Partneriaeth Dysgu Oedolion yn y Gymuned Wrecsam a Sir y Fflint

Mwy o wybodaeth am y bartneriaeth:

Gogledd Ddwyrain Cymru
Dysgu Cymunedol i Oedolion
Adult Community Learning
North East Wales

Uchafbwyntiau:

- Bu dysgu awyr agored yn fachyn grymus ar gyfer annog ysgolion cynradd i gymryd rhan mewn dysgu fel teulu a hefyd ar gyfer ennyn diddordeb rhieni yn y rhaglen o fewn ysgolion.
- Mae Cydlynydd Dysgu fel Teulu y Bartneriaeth yn cysylltu gyda staff ymgysylltu a benodwyd drwy ysgolion bro i sicrhau fod gweithgareddau wedi alinio ac nad ydynt yn dyblygu ei gilydd.
- Cafodd dysgu fel teulu mewn ysgolion uwchradd ei dargedu a'i deilwra i gefnogi teuluoedd unigol gyda phroblemau penodol, tebyg i bontio o ysgol gynradd cyfrwng Saesneg i ysgol uwchradd cyfrwng Cymraeg ar gyfer disgyblion o deuluoedd nad ydynt yn siarad Cymraeg.
- Mae datblygiad proffesiynol parhaus gyda thiwtoriaid dysgu fel teulu yn rhoi'r sgiliau a'r wybodaeth iddynt i gyflwyno gwybodaeth, cyngor ac arweiniad wedi ei sefydlu i oedolion ar y rhaglen.
- Mae partneriaid yn cynnwys Coleg Cambria, Gyrfa Cymru, Cymunedau am Waith a Mwy, ac Ymgyrraedd yn Ehangach yn cyflwyno sesiynau dilyniant i ddygwyr tuag at ddiwedd pob cwrs dysgu fel teulu i'w cefnogi i gymryd y camau nesaf mewn dysgu neu waith.

Trosolwg o'r ddarpariaeth:

Mae Partneriaeth Dysgu Oedolion yn y Gymuned Wrecsam a Sir y Fflint yn gweithio gydag ysgolion ar draws y ddau awdurdod lleol i gyflwyno rhaglen amrywiol o ddysgu fel teulu.

Mae darpariaeth mewn ysgolion cynradd wedi ennill ei phlwyf ac mae'n creu cyfleoedd i oedolion a phlant ddysgu gyda'i gilydd gyda phwyslais cryf ar themâu llythrennedd a dysgu awyr agored, Yn y cyfamser, mae gwaith sy'n dod i'r amlwg gydag ysgolion uwchradd yn canolbwyntio ar oedolion y mae eu plant yn wynebu heriau yn yr ysgol. Darperir dysgu wedi ei deilwra i ddatblygu ymwybyddiaeth a dealltwriaeth benodol fel y gallant ymgysylltu'n fwy effeithlon gyda'r system ysgolion i gefnogi eu plentyn. Cafodd cymorth ar gyfer dilyniant oedolion ei sefydlu ar draws yr holl ddarpariaeth dysgu fel teulu.

Mae'r Bartneriaeth wedi defnyddio cyllid ymgysylltu Llywodraeth Cymru i benodi cydlynydd penodol o fewn un o'u darparwyr partner sy'n gweithredu fel un man cyswllt i ymgysylltu ag ysgolion.

Gogledd Ddwyrain Cymru
Dysgu Cymunedol i Oedolion
Adult Community Learning
North East Wales

Mae'r cydlynydd yn hyrwyddo dysgu fel teulu fel dull i ysgolion ddefnyddio cyllid addysg oedolion i gyrraedd a chefnogi rhieni ac oedolion eraill yn y teulu. Bu dysgu awyr agored yn fachyn grymus ar gyfer ennyn diddordeb ysgolion a hefyd rieni mewn ysgolion cynradd, gyda 17 ysgol wedi ymgysylltu ar hyn o bryd.

Dynodi angen:
Mae ysgolion yn dynodi'r blaenoriaethau ar gyfer eu darpariaeth dysgu fel teulu – er enghraifft ddarllen neu ESOL – gan eu bod yn adnabod eu teuluoedd. Unwaith yr ymgysylltwyd ag ysgolion, mae'r cydlynydd dysgu fel teulu yn gweithio gyda nhw i ddatblygu rhaglen sy'n ymateb i'w hanghenion.

Fel arfer, bydd hyn yn cynnwys cyfuniad o gyrsiau mwy cyffredinol a rhai ymyriadau wedi eu targedu ar gyfer teuluoedd y mae'r ysgol wedi dynodi eu bo angen cymorth penodol, er enghraifft gyfnod allweddol neilltuol, dosbarth neu deuluoedd unigol.

Mae'r cydlynydd yn gynyddol yn cysylltu gyda staff ymgysylltu a benodwyd drwy ysgolion bro. Ystyrir fod hyn yn gysylltiad hollbwysig ar gyfer y Bartneriaeth gan ei fod yn cysylltu cyllid addysg oedolion gyda ffrwd cyllid arall a all gefnogi dysgu fel teulu a sicrhau eu bod yn ategu yn hytrach na dyblygu gweithgaredd. Cafodd y perthnasoedd mwyaf effeithlon eu hadeiladu lle penodwyd cydlynydd ymgysylltu fel teulu yn yr ysgol, yn hytrach na phan fo ymgysylltu â theuluoedd yn "ychwanegiad" i lwyth gwaith presennol aelod o staff.

Datblygu'r cwricwlwm:
Mae gweithio gyda darparwyr ar draws y Bartneriaeth wedi galluogi'r cydlynydd dysgu fel teulu i ddod ag ystod eang o arbenigedd ac adnoddau i greu cyfleoedd newydd a thyfu'r rhaglen.
Er enghraifft:

- Mae Groundwork Gogledd Cymru yn cyflwyno dysgu awyr agored, sydd wedi profi'n boblogaidd tu hwnt.
- Mae'r Ganolfan Darganfod Gwyddoniaeth yn cyflwyno gweithgareddau gyda ffocws ar STEM.
- Mae tîm Wrecsam Egnïol a Hamdden a Llyfrgelloedd Aura yn Sir y Fflint yn cyflwyno darpariaeth gyda elfen chwaraeon a ffitrwydd teulu.

Mae darpariaeth mewn ysgolion cynradd yn anelu i gael apêl eang ac mae'n cynnwys elfennau lle mae oedolion a phlant yn dysgu gyda'i gilydd.

Mae ymgysylltu gydag ysgolion uwchradd yn datblygu yn awr, ac mae dysgu fel teulu yn y cyd-destun hwn yn edrych yn wahanol iawn. Mae'n ddarpariaeth bwrpasol wedi ei thargedu, gyda'r pwyslais ar ymgysylltu â theuluoedd unigol a'u cefnogi. Caiff y teuluoedd eu dynodi gan yr ysgol o amgylch materion penodol, fel y dengys yr enghreifftiau canlynol:

- Caiff y rhaglen pontio cyfrwng Cymraeg ei datblygu a'i chyflwyno yn Wrecsam mewn partneriaeth gyda'r Ganolfan Dysgu Cymraeg Genedlaethol. Wedi'i chynllunio i gefnogi disgyblion sy'n pontio o ysgolion cynradd cyfrwng Saesneg i ysgol uwchradd cyfrwng Cymraeg, caiff ei thargedu'n benodol at rieni nad ydynt yn siarad Cymraeg eu hunain a chaiff ei chyflwyno yn ystod tymor y gwanwyn a thymor yr haf blwyddyn olaf disgyblion yng nghyfnod allweddol 2.

- Yn Sir y Fflint, cafodd darpariaeth ei datblygu mewn ysgol uwchradd i gefnogi dysgwyr ESOL sydd yn newydd-ddyfodiaid ac mae eu plant wedi ymuno â'r ysgol. Sylweddolwyd mai ychydig o ddealltwriaeth oedd gan teuluoedd yn aml o'r model ysgol uwchradd a sut yr oedd eu plant yn dysgu a materion tebyg i ddisgwyliadau yr ysgol yng nghyswllt materion megis presenoldeb, ymddygiad a gwaith cartref. Mae'r ysgol wedi defnyddio dysgu fel teulu i ymgysylltu'n uniongyrchol gyda theuluoedd mewn modd cadarnhaol i hyrwyddo ymwybyddiaeth a ymddiriedaeth pobl at ei gilydd.

Ymgysylltu â theuluoedd:
Ymgysylltir â dysgwyr drwy'r ysgolion sy'n cymryd rhan. Mae'n hanfodol fod gan yr aelod staff o fewn yr ysgol sy'n gyfrifol am ddysgu fel teulu ddealltwriaeth o ymgysylltu â'r gymuned a'r sgiliau a'r profiad i weithio'n effeithlon gyda rhieni a all fod â pherthynas anodd gyda'r ysgol. Mae gwaith ymgysylltu, ynghyd â datblygu'r rhaglen dysgu fel teulu ar gyfer pob ysgol, yn galw am lawer o amser staff, yn arbennig tra bod gweithgaredd yn ei gamau cynnar.

Mewn ysgolion cynradd, caiff cyrsiau eu cynnig ar sail gyffredinol i'r holl oedolion yn y teulu drwy sianeli tebyg i gylchlythyrau a chyfryngau cymdeithasol, er y byddai peth targedu uniongyrchol ar rai teuluoedd y mae'r ysgol yn credu fyddai'n cael mwyaf o fudd o gymryd rhan. Unwaith y sefydlwyd darpariaeth, yn aml argymhelliad personol rhwng teuluoedd yw'r ffordd fwyaf grymus o ddod â dysgwyr newydd i mewn.

"Mae'r niferoedd wedi cynyddu oherwydd nid oes dim byd fel argymhelliad personol gan rieni yn sgwrsio gyda rhieni eraill yn y cae chwarae a phethau felly."

Gan gydnabod effeithlonrwydd ymgysylltu seiliedig ar gymheiriaid, mae'r Bartneriaeth yn edrych ar bosibilrwydd datblygu model pencampwyr rhieni i ffurfioli'r ymagwedd yma.

Profodd dysgu awyr agored yn dull deniadol iawn a bu'n allweddol i hybu ymgysylltu ar draws Wrecsam a Sir y Fflint. Drwy gynnig sesiynau yn seiliedig o amgylch themâu arferol tebyg i drwsio beiciau a gwaith coed, cafodd y Bartneriaeth lwyddiant amlwg mewn annog diddordeb dynion mewn dysgu fel teulu. Mae galw uchel gan ysgolion a'r prif gyfyngiad presennol ar ehangu yw galluedd partneriaid cyflenwi.

Cefnogi dilyniant:
Yn yr un modd â'r holl ddarpariaeth a gyflwynir drwy'r Bartneriaeth, mae cymorth dilyniant ar gyfer oedolion ar gyrsiau dysgu fel teulu wedi ei sefydlu ym mhob rhan. Mae partneriaid yn cydweithio i gynllunio dilyniant, gan ddynodi a datblygu llwybrau ar draws y Bartneriaeth gyfan. Y nod yw cefnogi oedolion i symud ymlaen o'u cyswllt dechreuol mewn dysgu teulu heb achrediad i sgiliau hanfodol a darpariaeth arall fel sy'n briodol i'w hanghenion a'u hamgylchiadau.

Gogledd Ddwyrain Cymru
Dysgu Cymunedol i Oedolion
Adult Community Learning
North East Wales

Fodd bynnag, er fod dilyniant yn flaenoriaeth, ni caiff ei gyfarch yn uniongyrchol yn y rhyngweithio a gaiff y cydlynydd a thiwtoriaid gyda rhieni ar y cam ymgysylltu, a chaiff yr asesu dechreuol ei wneud drwy fonitro anffurfiol.

"Rydyn ni'n meddwl bob amser am y sgiliau hanfodol gyda rhieni. Nid yw o bwys beth maent yn ei wneud a gwyddom o'r ymgysylltu dechreuol, fod sut maent yn llenwi'r ffurflen, er enghraifft, yn dweud llawer wrthym am os oes ganddynt anghenion llythrennedd. Mae dilyniant yno bob amser."

Mae'r agwedd yma yn adlewyrchu dealltwriaeth y caiff oedolion eu cymell i ddechrau i gymryd rhan gan y syniad o wneud rhywbeth dros eu plentyn, a gall y rhai sy'n cael mwyaf o anhawster gyda'u llythrennedd neu fathemateg eu hunain hefyd fod y mwyaf amharod i wynebu hynny ar y cychwyn cyntaf.

Wrth i'r cwrs symud ymlaen a'r tiwtor yn meithrin perthynas ac ymddiriedaeth gyda'r dysgwyr, mae hyn yn arwain at sgyrsiau am ddiddordebau yr oedolion a'r sgiliau yr hoffent eu datblygu. Mae ystod o gyrsiau a gyflwynir mewn ysgolion tebyg i ffoneg, diogelwch bwyd a chymorth cyntaf, yn rhoi dilyniant i ymrestru ar gyrsiau Saesneg, mathemateg neu sgiliau digidol gydag achrediad yn y coleg. O gyrsiau seiliedig mewn ysgol, gall dysgwyr symud ymlaen i ystod o sgiliau a darpariaeth cyflogadwyedd eraill yn cynnwys hyfforddi cynorthwywyr addysgu a mynediad i addysg bellach, a hwylusir gan atgyfeiriadau rhwng partneriaid.

"Rydym yn agor y llwybr hwnnw i rieni wrth iddynt ddechrau, fel y gallent ddechrau drwy ddod i weithgaredd ymgysylltu a allai fod yn grefft er enghraifft, ond wedyn mae'n adeiladu'r berthynas honno gyda nhw wythnos ar ôl wythnos."

Mae rôl tiwtoriaid yn allweddol ac mae'r Bartneriaeth yn sicrhau fod y sgiliau a'r wybodaeth ganddynt i gyflwyno gwybodaeth, cyngor ac arweiniad. Caiff pob tiwtor eu hysbysu am yr ystod o gyfleoedd dilyniant o'u cwrs a gallant hysbysu dysgwyr amdano a chasglu gwybodaeth am ba gymorth pellach maent eu hangen i symud ymlaen.

Tuag at ddiwedd cwrs, yn dibynnu ar yr hyn mae dysgwyr ei angen, caiff partneriaid eraill eu gwahodd i siarad gyda nhw am gyfleoedd dilyniant a'u cefnogi i gymryd y camau nesaf. Mae'r partneriaid sy'n cymryd rhan yn y broses yma yn cynnwys Coleg Cambria, Gyrfa Cymru, Cymunedau am Waith a Mwy ac Ymgyrraedd yn Ehangach. Cafodd sesiynau dilyniant pwrpasol eu datblygu lle mae dysgwyr angen cymorth penodol. Er enghraifft, cafodd grŵp o ddysgwyr mewn un ysgol eu helpu i gael mynediad i ddarpariaeth ESOL, tra mewn un arall daeth y swyddog Ehangu Mynediad i mewn i siarad gydag unigolion sy'n dymuno symud ymlaen i Addysg Bellach.

Gogledd Ddwyrain Cymru
Dysgu Cymunedol i Oedolion
Adult Community Learning
North East Wales

Gwerthuso effaith:
Y deilliant allweddol o ddiddordeb i ysgolion yw oedolion yn ymwneud mwy ag addysg eu plant ac yn fodlon dod i'r ysgol, ac mae'r Bartneriaeth yn gweithio gydag ysgolion i gasglu tystiolaeth o hyn.
Mae datblygu dull i olrhain dilyniant o ddysgu fel teulu i ddarpariaeth arall yn mynd rhagddo, fel rhan o'u gwaith ehangach i ddatblygu system rheoli gwybodaeth (MIS) ar draws y Bartneriaeth.

Nodiadau a Chyfeiriadau

- National Research and Development Centre (2012) Family learning: a review of the research literature
- Scottish Government (2016) Review of Family Learning Supporting Excellence and Equity
- Campaign for Learning (2022) Parents, Children and Adult Learning: Family Learning Policy in the 2020s
- Learning and Work Institute (2019) Fit for purpose: the wider outcomes of family learning
- NIACE (2013) Family Learning Works The Inquiry into Family Learning in England and Wales
- Education Scotland (2018) Family Learning Framework Advice for Practitioners
- NIACE (2013) Family Learning Works The Inquiry into Family Learning in England and Wales: Summary
- Adroddiad Arolwg Estyn (2022) : Ysgol Uwchradd Cathays
- Adroddiad Sector Estyn (2021-2022): Addysg oedolion yn y gymuned
- Llywodraeth Cymru (2022) Canllawiau, Dogfennu Ysgolion Bro
- Llywodraeth Cymru (2023) Atodiad 4: Datblygu trefniadau ar gyfer ymgysylltu â'r gymuned mewn Ysgolion Bro.
- Llywodraeth Cymru (2015) Ymgysylltu â'r teulu a'r gymuned
- Stats Cymru: Mynegai Amddifadedd Lluosog Cymru
- Hwb: Cwricwlwm i Gymru
- Campaign for Learning: National Centre for Family Learning
- Cwmpas (2024) Coleg Caerdydd a'r Fro – Effaith Dysgu fel Teulu a'r Cwricwlwm Dinasyddion.

- Llywodraeth Cymru (2015) Ymgysylltu â'r teulu a'r gymuned
- Atodiad 3: Datblygu ymgysylltu â'r teulu mewn ysgolion bro.
- Cymru'n Gweithio
- Gyrfa Cymru
- Ymgyrraedd yn Ehangach
- Y Brifysgol Agored yng Nghymru - OpenLearn Cymru
- Partneriaethau Addysg Oedolion yng Nghymru – Sefydliad Dysgu a Gwaith
- Cyrsiau Cymunedol – Addysg Oedolion Cymru
- Sefydliad Dysgu a Gwaith: Llwyfan yr Wythnos Addysg Oedolion
- Fframwaith Cenedlaethol TOMs 2019
- Ysgol Gynradd Gymunedol Monkton Priordy: Lansio
- Coleg Caerdydd a'r Fro – Teuluoedd yn Dysgu Gyda'i Gilydd
- Ysgol Uwchradd Cathays – Grŵp Dysgu Rhieni
- Dysgu Sir Benfro – Prosiect Sbardun
- Partneriaeth Addysg Oedolion Abertawe
- Partneriaeth Dysgu Oedolion yn y Gymuned Wrecsam a Sir y Fflint

Atodiad A: Pa wahaniaeth a wnaiff dysgu fel teulu?

Mae astudiaethau ar ddeilliannau Dysgu fel Teulu yn dangos yn gyson fod ei nerth neilltuol yn y buddion deublyg y gall eu sicrhau, gan gyfrannu ar yr un pryd at ddeilliannau cadarnhaol ar gyfer oedolion a hefyd ar gyfer plant. Fel dull ymyriad ac atal cynnar, mae'n gweithio wrth gyrraedd teuluoedd a chymunedau difreintiedig i wella eu cyfleoedd bywyd ac mae ganddo rôl bwysig wrth chwalu cylchoedd o anfantais rhyng-genhedlaeth. Gall dysgu gyda'i gilydd gryfhau cyfathrebu a gwella perthnasoedd a llesiant o fewn teuluoedd.

Mae tystiolaeth o effaith dysgu fel teulu yn dynodi'r deilliannau canlynol ar gyfer plant:

- Gwella cyrhaeddiad addysgol.
- Gwella presenoldeb yn yr ysgol.
- Gwella ymddygiad.
- Cynyddu cymhelliant.
- Cynyddu hyder.

Cafodd y deilliannau canlynol eu dynodi ar gyfer oedolion:

- Gwella cyrhaeddiad addysgol
- Gwella sgiliau cyflogadwyedd (e.e. sgiliau cyfathrebu).
- Cynnydd mewn addysg a chyflogaeth.
- Cynyddu cymhelliant.
- Cynyddu hyder.
- Cynyddu cyfalaf cymdeithasol a diwylliannol a rhwydweithiau cymdeithasol cryfach.
- Gwella hyder rhieni a sgiliau rhianta.

Mae dysgu fel teulu hefyd yn cael effaith gadarnhaol ar ddarpariaeth gwasanaethau lleol, drwy gynyddu ymgysylltu plant ac oedolion gyda dysgu. Gall weithredu fel bachyn grymus ar gyfer ail-gysylltu oedolion â dysgu a thrwy hynny gefnogi ymdrechion darparwyr addysg oedolion i gyrraedd ac ymgysylltu â'r rhai sy'n wynebu rhwystrau i fynediad ac sy'n profi anfantais sylweddol yng nghyswllt dysgu, sgiliau a chyflogaeth. Ar yr un pryd, mae ysgolion yn sôn am fanteision cynyddu ymgysylltu â rhieni a mwy o gefnogaeth ar gyfer dysgu plant, a gall hyn helpu i gynyddu cyrhaeddiad addysgol.

Atodiad B: Cyd-destun polisi ar gyfer datblygu Fframwaith Dysgu fel Teulu Cymru

Mae gan dysgu fel teulu y potensial i fod â rhan bwysig wrth gefnogi cyflenwi ystod o flaenoriaethau polisi ar gyfer Cymru (gweler Ffigur 1 isod). Mae adnabod a diffinio'r cysylltiadau hyn yn cryfhau'r achos y gall darparwyr a rhanddeiliaid ei wneud gyda chyllidwyr a gwneuthurwyr penderfyniadau lleol a chenedlaethol i werthfawrogi, cefnogi a hyrwyddo dysgu fel teulu.



Ffigur 1: Cysylltiadau allweddol dysgu fel teulu â blaenoriaethau polisi cenedlaethol.

Caiff y polisïau allweddol dan bob un o'r themâu hyn sy'n gorgyffwrdd gyda dysgu fel teulu eu hamlinellu isod.

Strategaethau cyffredinol:

Llesiant Cenedlaethau'r Dyfodol

Mae nifer o'r dangosyddion cenedlaethol cyfredol (diweddarwyd 2021) yn cyfeirio at bynciau sydd o ddiddordeb i ddysgu fel teulu, yn cynnwys: lefelau cymwysterau oedolion; cyfranogiad mewn addysg, cyflogaeth a hyfforddiant ar gyfer gwahanol grwpiau oedran; datblygiad plentyndod; llesiant teulu; cyrhaeddiad addysgol plant; a chynhwysiant digidol.

Y Rhaglen Lywodraethu 2021-6
Mae nifer o'r amcanion, ymrwymiadau a chamau gweithredu cysylltiedig a nodir yn y Rhaglen Lywodraethu yn anelu i fynd i'r afael ag anghydraddoldeb addysgol, codi safonau a hyrwyddo cynnydd addysgol a chyflogadwyedd ar gyfer plant, pobl ifanc ac oedolion, ac i gryfhau rôl rhieni, teuluoedd ac ysgolion. Cynigir ehangu darpariaeth blynyddoedd cynnar a gofal plant fel rhan o'r dull gweithredu i fynd i'r afael ag anfantais. Bydd hefyd fwy o fuddsoddiad yn amgylchedd dysgu ysgolion bro, gyda gwasanaethau allweddol yn cael eu cydleoli a ffocws ar sicrhau ymgysylltu cryfach gyda rhieni a gofalwyr tu allan i oriau traddodiadol. Caiff dysgu gydol oes ei annog ymhellach drwy fesurau yn cynnwys ehangu Cyfrifon Dysgu Personol, Cronfa Dysgu Undeb a phrentisiaethau pob oed a chyflwyno y Warant i Bobl Ifanc.

Dengys adolygiad a gynhaliwyd gan y Sefydliad Dysgu a Gwaith yn 2021 fod gan addysg oedolion y potensial i gyfrannu ar draws ystod amcanion y Rhaglen Lywodraethu. Gall dysgu fel teulu fod â rôl bwysig mewn cefnogi hyn, fel llwybr ymgysylltu, cyfranogiad a dilyniant yn ôl i ddysgu ar gyfer oedolion, yn arbennig y rhai sydd â phrofiadau negyddol o addysg ddechreuol.

Cynllun Gweithredu Cymru Wrth-hiliol 2023
Mae'r Cynllun hwn yn nodi'r mesurau y bydd y Llywodraeth yn eu cymryd tuag at wneud Cymru yn genedl wrth-hiliol. Mae'n tanlinellu'r bwriad i fabwysiadu dull gweithredu newydd ac agored wrth-hiliol, i gyfarch y ffyrdd strwythurol y caiff hiliaeth ei barhau drwy bolisïau ac arferion ar draws pob maes o lywodraeth a darpariaeth gwasanaeth yn y sector cyhoeddus, y sector preifat a'r trydydd sector.

Cynigir camau gweithredu manwl i sefydlu gwrth-hiliaeth ar draws meysydd polisi. Caiff y nod ehangach o hyrwyddo cymdeithas wrth-hiliol a diwylliant ac arfer gwrth-hiliol eu cynnwys o fewn pob darparydd addysg bellach ac addysg oedolion i fynd i'r afael ag anghydraddoldeb addysgol. Mae ffocws y Cynllun ar brofiadau, cyfleoedd a deilliannau dysgwyr a hefyd y gweithlu addysg, ac mae'n cynnwys camau gweithredu i sefydlu gwrth-hiliaeth yn y cwricwlwm ôl-16. Cynigir mesurau penodol i fynd i'r afael â hiliaeth strwythurol a systemig o fewn rhaglenni cyflogadwyedd a sgiliau sy'n atal pobl rhag cael mynediad i hyfforddiant a sicrhau cynnydd yn y gwaith. Drwy ffocws ar leoliadau gofal plant a chwarae, mae'r Cynllun hefyd yn anelu i sefydlu gwrth-hiliaeth mewn camau i fynd i'r afael ag anghydraddoldeb mewn cyrhaeddiad blynyddoedd cynnar a rhoi cefnogaeth well i rieni a gofalwyr i hyrwyddo datblygiad plant.

Cyfeirir at ddatblygu Fframwaith Dysgu fel Teulu ar y cyd fel cam gweithredu yng nghyswllt mynd i'r afael â hiliaeth mewn rhaglenni cyflogadwyedd.

Cyflogadwyedd a sgiliau:
Cymru Gryfach, Decach a Gwyrddach
Cynllun cyflogaeth a sgiliau cenedlaethol sy'n nodi blaenoriaethau polisi a buddsoddi ar gyfer Llywodraeth Cymru a disgwyliadau partneriaid ac eraill o fewn y system cyflogadwyedd a sgiliau yn ehangach. Nod y strategaeth yw cefnogi adferiad economaidd a chymdeithasol yn dilyn Covid, sicrhau mynediad teg a chyfartal i addysg, hyfforddiant a swyddi ansawdd uchel ar gyfer pob dinesydd, ynghyd â phontio i sero net. Mae'r ymrwymiadau allweddol yn cynnwys:

- Y Warant i Bobl Ifanc, i alluogi pawb dan 25 oed i gael mynediad i gynnig gwaith, addysg, hyfforddiant neu hunan-gyflogaeth.
- Cefnogi oedolion i gyflogaeth, drwy roi blaenoriaeth a chyfuno cymorth cyflogadwyedd cenedlaethol dan arweiniad Llywodraeth Cymru a thargedu adnoddau tuag at y rhai a gaiff eu tan-gynrychioli yn y farchnad lafur.
- Mynd i'r afael ag anghydraddoldeb addysgol a chodi safonau a lefelau cymhwyster, yng nghyswllt ysgolion a hefyd drwy gynyddu cyfranogiad mewn datblygu addysg a sgiliau ar draws cwrs bywyd.

Medr
Sefydlwyd Medr dan Ddeddf Addysg Drydyddol ac Ymchwil (Cymru) ac mae'n gyfrifol am strategaeth, cyllido a throsolwg:

- Addysg bellach, yn cynnwys colegau a chweched dosbarth ysgolion.
- Addysg uwch, yn cynnwys ymchwil ac arloesedd.
- Addysg oedolion a dysgu oedolion yn y gymuned.
- Prentisiaethau a hyfforddiant.

Byd Medr yn datblygu'r weledigaeth strategol ar gyfer addysg drydyddol ac ymchwil yng Nghymru i greu system gydlynus sy'n cyfrannu at ffyniant cenedlaethol drwy godi lefelau sgiliau a mynd i'r afael ag anghydraddoldeb, fel y gall pawb gael mynediad i'r dysgu maent ei angen.

Plant, ysgolion a phobl ifanc:
Ysgolion Bro
Caiff datblygu ysgolion bro ei hyrwyddo ym mhob ysgol ledled Cymru fel rhan o ymrwymiad ehangach Llywodraeth Cymru i fynd i'r afael ag effaith tlodi ar gyrhaeddiad addysgol. Wedi eu seilio yn yr egwyddor fod gan deulu a chymuned, yn ogystal ag ysgolion, rôl allweddol mewn cefnogi datblygiad plant, disgwylir i ysgolion bro:

- Adeiladu partneriaeth gref gyda theuluoedd.
- Ymateb i anghenion eu cymuned.
- Cydweithio'n effeithlon gyda gwasanaethau eraill, yn cynnwys cyd-leoli gwasanaethau mewn ysgolion.

Caiff dysgu fel teulu ei ddynodi yn benodol fel nodwedd o ysgolion bro effeithlon, yn arbennig raglenni sy'n cefnogi rhieni i ddatblygu hyder i gefnogi dysg eu plentyn gartref.

Fframwaith Ymgysylltiad a Chynnydd Ieuenctid
Wedi'i ddiwygio yn dilyn ymgynghoriad gyda phobl ifanc a rhanddeiliaid yn 2021, nod y Fframwaith yw rhoi dull systematig ar gyfer dynodi a chefnogi pobl ifanc 11-18 oed sydd mewn risg o beidio bod mewn addysg, cyflogaeth na hyfforddiant (NEET) neu sydd yn NEET ac mewn risg o ddod yn ddigartref. Mae'n anelu i atal tlodi a digartrefedd drwy helpu pobl ifanc i aros mewn addysg neu hyfforddiant a chyflawni eu potensial.

Rhieni a theuluoedd:

Dechrau'n Deg

Wedi ei lansio yn 2007, nod Dechrau'n Deg yw cefnogi teuluoedd gyda phlant dan bedair oed mewn ardaloedd difreintiedig yng Nghymru. Fe'i cyflwynir gan awdurdodau lleol o fewn yr ardaloedd daearyddol penodol ac mae'n un o brosiectau blaenllaw Llywodraeth Cymru. Mae elfennau creiddiol y rhaglen yn cynnwys ystod o ymyriadau y dangoswyd y byddent yn dylanwadu ar ddeilliannau cadarnhaol ar gyfer plant a'u teuluoedd, yn cynnwys:

- Gofal plant rhan-amser i blant dwy i dair blwydd oed.
- Gwasanaeth ymwelydd iechyd estynedig.
- Mynediad i raglenni rhianta.
- Cymorth i blant i ddysgu siarad a chyfathrebu.

Mae'r elfen cymorth rhianta wedi ei seilio ar gydnabyddiaeth fod gan rieni rôl ganolog yng nghyswllt deilliannau ar gyfer plant. Mae'n anelu i wella sgiliau rhieni i gefnogi datblygiad, gofal a lles eu plentyn ac i'w helpu i fod â pherthynas gadarnhaol gyda'u plentyn. Mae cymorth rhianta yn anelu i gynnwys cynnig amrywiol sy'n adlewyrchu'r ystod o fathau, cyfnod a dwyster y cymorth y gall rhieni fod ei angen. Mae canllawiau cyflenwi yn pwysleisio y dylai darpariaeth gael ei seilio ar egwyddor gweithio mewn partneriaeth gyda rhieni i adeiladu a chynnal perthynas gadarnhaol ac sy'n dangos parch a'u helpu i ddatblygu hunanhyder yn eu rôl fel rhiant.

Strategaeth Cymru ar Dlodi Plant 2024

Mae'r strategaeth yn gosod y cyfeiriad ar gyfer gweithredu gan Lywodraeth Cymru i fynd i'r afael â thlodi plant dros y degawd nesaf neu fwy a chyflawni ein huchelgais ar gyfer plant a phobl ifanc yng Nghymru, beth bynnag fo'u hamgylchiadau neu gefndir. Mae hefyd yn rhoi fframwaith i fanteisio i'r eithaf ar yr ysgogiadau sydd ar gael i ni i wneud ein cyfraniad i ddileu tlodi plant. Mae'r strategaeth yn anelu i sicrhau integreiddio cryfach ar draws ein polisïau, rhaglenni a chynlluniau gweithredu cenedlaethol ac i gefnogi cydweithio ar lefel ranbarthol a lleol. Bydd hyn yn cyflawni ein huchelgais i sicrhau profiad a deilliant tecach ar gyfer pob plentyn a pherson ifanc.

Dysgu gydol oes:

Datganiad Polisi Addysg Oedolion 2017

Mae'r datganiad hwn yn cynnwys cylch gorchwyl darparwyr dysgu oedolion yn y gymuned sy'n derbyn cyllid o'r grant addysg oedolion. Mae'n nodi sut mae addysg oedolion yn cyfrannu at gyflawni Symud Cymru Ymlaen, gyda'r nod a ddatganwyd o helpu cefnogi oedolion i fod â rôl weithgar yn yr economi a chymdeithas drwy ddarparu cyfleoedd dysgu estynedig. Mae gan y polisi gwmpas eang yn cynnwys:.

- Datblygu sgiliau i ennill a sicrhau cynnydd mewn gwaith cynaliadwy ar dâl fel llwybr allan o dlodi.
- Gwella iechyd a llesiant unigol.
- Hyrwyddo ymgysylltiad cymdeithasol ac integreiddio cymunedol.

Mae disgwyliad y bydd gan ddarpariaeth a gyllidir drwy'r Grant Addysg Oedolion ddeilliannau clir wedi'i cynllunio yn ymwneud â chynnydd mewn dysgu, cynnydd mewn cyflogadwyedd a gwell integreiddio cymdeithasol. Disgwylir i ddarparwyr gynllunio a blaenoriaethu ar y cyd. Caiff dysgu fel teulu ei gynnwys yng nghwmpas y ddarpariaeth y gellir ei chyllido drwy'r Grant Addysg Oedolion dan gategori ymgysylltu a chyrsiau "bachyn", er y rhoddir blaenoriaeth i lythrennedd, rhifedd, sgiliau digidol ac ESOL.

Iechyd a llesiant:

Gweithio Gyda'n Gilydd ar gyfer Cymru Iachach (2023)

Mae strategaeth hirdymor (2023-35) Iechyd Cyhoeddus Cymru yn gosod blaenoriaethau ar gyfer gweithredu gyda'r nod o gynyddu disgwyliad bywyd iach, gwella iechyd a llesiant a gostwng anghydraddoldeb iechyd. Caiff ei gosod yng nghyd-destun dilyn pandemig Covid a'r argyfwng costau byw parhaus, gyda'r ddau ohonynt wedi gwaethygu anghydraddoldeb iechyd a heriau presennol ac sy'n debygol o fod â chanlyniadau hirdymor.

Mae'r strategaeth yn cydnabod pwysigrwydd addysg a sgiliau, cysylltiadau teuluoedd a chymunedol ac ymddygiad iach fel ffactorau hanfodol sydd eu hangen ar gyfer iechyd corfforol a lles meddwl da drwy gydol bywyd. Mae'n trafod gwreiddiau anghydraddoldeb iechyd mewn anghydraddoldeb economaidd a chymdeithasol ehangach ac yn tynnu sylw at y ffyrdd y mae anfantais yn arwain at barhau deilliannau iechyd anghyfartal ar draws cenedlaethau. Gan alw am fwy o gydweithio ar draws meysydd polisi, mae'r strategaeth yn annog partneriaid o feysydd yn cynnwys addysg a sgiliau i gydweithio i gyfrannu wrth fynd i'r afael ag anghydraddoldeb iechyd.

SEFYDLIAD DYSGU A GWAITH
LEARNING AND WORK INSTITUTE

Mae'r Sefydliad Dysgu a Gwaith yn sefydliad polisi ac ymchwil annibynnol sydd â'i ffocws ar ddysgu gydol oes a gwaith gwell.

Ein gweledigaeth yw cymdeithas deg a llewyrchus lle mae dysgu a gwaith yn galluogi pawb i wireddu eu potensial. Ymchwiliwn yr hyn sy'n gweithio, dylanwadu ar bolisi a datblygu syniadau newydd i wella ymarfer.

Gweithiwn gydag ystod eang o bartneriaid a chyllidwyr i gyflawni ein gweledigaeth o gymdeithas lewyrchus a theg lle mae dysgu a gwaith yn rhoi cyfleoedd i bawb wireddu eu potensial ac uchelgais ar hyd eu bywydau.

Cwmni cyfyngedig drwy warant rhif cofrestru 2603322 ac elusen gofrestredig rhif 1002775.

7 Coopers Yard
Caerdydd
CF10 5NB
+44(0)29 2037 0900
enquiries@learningandwork.org.uk
https://www.sefydliaddysguagwaith.cymru/